Yn 2017-18, sefydlwyd strwythur llywodraethiant gadarn i gyflawni a monitro camau gweithredu Strategaeth Caerdydd ddwyieithog, gan gynnwys sefydlu Fforwm Caerdydd Ddwieithog gyda dros 35 o sefydliadau yn cael eu cynrychioli. Amcanion a swyddogaeth y fforwm sy'n cwrdd bob chwarter, ac sy'n cael ei gadeirio gan Menter Caerdydd, yw i:

1. Sicrhau fod pob cynrychiolydd yn gyfrifol am fonitro'r camau gweithredu sy'n berthnasol i'w sefydliad eu hunain.
2. Darparu adborth chwarterol i Grŵp Aelodaeth Caerdydd ddwyieithog y cyngor ar weithredu'r camau perthnasol.
3. Cyfrannu at ymatebion yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r Gymraeg ar ran y fforwm.
4. Rhannu arfer da a nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er budd y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Fel rhan o'u cylch gorchwyl, bydd Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwieithog hefyd yn diweddarau'r Cabinet yn rheolaidd ar waith Strategaeth Caerdydd Ddwieithog.

### **Hyrwyddo Addysg Gymraeg**

Mae llawlyfr Derbyn i Ysgolion 2018-19 Cyngor Caerdydd (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) yn cynnwys adran benodol ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r wybodaeth yn cynnwys canllaw ar ffurf cwestiynau cyffredin i rieni, ac mae'r wybodaeth hon hefyd wedi'i rhoi ar dudalen ar wefan y Cyngor [www.caerdydd.gov.uk/addysgcyfrwngcymraeg](http://www.caerdydd.gov.uk/addysgcyfrwngcymraeg).

Ymhellach i hyn, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn hyrwyddo gwybodaeth am addysg Gymraeg yn rheolaidd, sy'n trafod cwestiynau mwyaf cyffredin darpar rieni. Fel rhan o Strategaeth Caerdydd Ddwieithog, trefnwyd hefyd bod llyfryn gwybodaeth Llywodraeth Cymru ar addysg Gymraeg yn cael ei rannu â rhieni wrth gofrestru genedigaethau yng Nghaerdydd.

### **Gweithio gyda busnesau i ddatblygu eu defnydd ar y Gymraeg**

Un o flaenoriaethau'r Strategaeth yw annog busnesau preifat sy'n cefnogi'r Gymraeg i ddefnyddio neu arddangos brand Caerdydd Ddwieithog yn eu siopau neu fusnesau. Yn 2018, mae Caerdydd Ddwieithog wedi bod yn gweithio ar y cyd â Menter Caerdydd a swyddogion lleol ar gynllun 'Prosiect Byd Busnes'. Ariennir y Prosiect Byd Busnes gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gynnal trwy gyfrwng Mentrau Iaith Cymru. Mae 10 swyddog wedi eu lleoli ledled Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnig gwasanaeth penodol am ddim i fodloni anghenion busnesau, roi cyngor a chynnig syniadau ymarferol, a chyfeirio busnesau at gymorth arall sydd ar gael. Mae deunyddiau arddangos 'Caerdydd Ddwieithog' hefyd wedi'u dosbarthu drwy'r swyddog byd busnes Cymraeg lleol; ac mae Menter Caerdydd, Caerdydd Ddwieithog, Comisiynydd y Gymraeg, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac FSB Cymru wedi bod yn gweithio'n agos i adeiladu perthnasau bositif gyda busnesau



Caerdydd, a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2018/19 wrth i Gaerdydd groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2018.  
<http://cymraeg.gov.wales/?lang=cy>

### Hyfforddiant Cymraeg

Trwy arian grant gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae Prifysgol Caerdydd wedi sefydlu cynllun newydd sy'n anelu at ddarparu hyfforddiant yn benodol ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Bwriad y Brifysgol yw cynnig amserlen lawn ac amrywiol o wersi a gweithgareddau anffurfiol o fewn y cymunedau lleol a thu hwnt. Bydd tiwtor/cydllynydd ganddynt hefyd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo'r gwaith, ac i gynnig amserlen hygyrch i deuluoedd cyfan.

Ar ben hynny, trwy arian grant, mae Prifysgol Caerdydd hefyd wedi penodi tiwtor/cydllynydd i weithio'n benodol gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Byddant yn cynnig cyrsiau iaith a digwyddiadau anffurfiol i gynorthwyo integreiddio. Bydd y digwyddiadau hyn, a caiff eu trefnu gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru, yn hyblyg ac yn agored i deuluoedd ac unigolion, gan ymateb yn gadarnhaol i anghenion cymunedau newydd ledled y ddinas. Caiff y digwyddiadau eu cynnig mewn lleoliadau ar hyd a lled y ddinas gyda'r nod o gyflwyno diwylliant y Gymraeg i gymunedau newydd.  
<https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/1115625-welsh-for-refugees-and-asylum-seekers>  
<https://www.walesonline.co.uk/news/education/refugees-being-offered-free-welsh-14373855>

### Sesiynau blasu'r Gymraeg Cynghrair y Pencampwyr UEFA

Cafodd dilynwyr pêl-droed oedd yng Nghaerdydd yn ystod ffeinal Cynghrair y Pencampwyr UEFA ym mis Mai 2017 gyfle i roi cynnig ar siarad Cymraeg. Gwnaeth Prifysgol Caerdydd (Cymraeg i Oedolion) ar y cyd â'r Hen Lyfrgell drefnu digwyddiad gydol y penwythnos ar yr Aes lle cafodd cefnogwyr o'r Eidal, Sbaen a gweddill y byd gyfle i roi cynnig ar y Gymraeg. Cafodd y cynllun unigryw, rhyngweithiol a chyffrous adborth positif ar y cyfryngau

cymdeithasol ac yn y wasg, gan helpu i ddangos bod Caerdydd yn ddinas ryngwladol fodern a dwyieithog.

<http://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-40144712/champions-league-final-fans-learning-welsh-in-cardiff>

### Dydd Miwsig Cymru 2018

Mae Dydd Miwsig Cymru yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cerddoriaeth Gymraeg. Dathlodd y Cyngor Ddydd Miwsig Cymru drwy hyrwyddo llawer o ddigwyddiadau miwsig lleol ar ein cyfryngau cymdeithasol, ochr yn ochr â dynodi Caerdydd yn 'Ddinas Gerdd' gyntaf y DU. Cyhoeddwyd cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys Prentis Corfforaethol Cyngor Caerdydd ynghyd â detholiad o gerddoriaeth Gymraeg. Roedd llinell ffonau Cysylltu â Chaerdydd hefyd yn chwarae detholiad o ganeuon Cymraeg fel cerddoriaeth wrth aros a hynny drwy gydol yr wythnos.

<http://cymraeg.gov.wales/DyddMiwsigCymru/?lang=cy>

### Adolygiad Strategaeth Caerdydd Ddwieithog (NICO)

Roedd un o argymhellion adroddiad cabinet Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn cynnwys mynd i'r afael ag adolygiad allanol o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu o fewn blwyddyn (gweler **atodiad 2** am yr adroddiad llawn).

# 4. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

## **Datganiad Cenhadaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)**

Bydd pob plentyn yn ein dinas yn hyderus o ran eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn 2050, er mwyn cyfrannu at greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle y caiff y Gymraeg ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

## **Gweledigaeth CSCA**

Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## **Gwerthoedd CSCA**

Dros y tair blynedd nesaf, 2017-2022, nodau strategol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yw darpariaeth addysgol sy'n sicrhau'r canlynol:

- Bod addysg a gofal Cymraeg i blant Cymraeg ar gael i bawb, gyda phontio effeithiol rhwng oedrannau a chyfnodau;
- Bod disgyblion yn fwy rhugl ac yn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol sefydledig, gymunedol a ffydd yng Nghaerdydd.
- Darpariaeth gynhwysol, sy'n chwalu rhwystrau ac yn rhoi cyfleoedd i unrhyw berson ifanc gael addysg dda trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Lle'r ydym ni'n dathlu ac yn hybu'r Gymraeg, trwy addysgu o

safon uchel a herio galluoedd dysgu plant;

- Ein bod yn hybu defnydd ehangach o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth trwy gyfleoedd chwarae, hamdden, gofal gwyliau ac ieuenctid a thu hwnt i'r ysgol mewn Addysg Uwch a Phellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gynlluniau CSCA ledled Cymru yn ystod haf 2017 oherwydd diffyg gwybodaeth yn ymwneud â buddsoddiad dan Fand B y CSCAau. Pan gyflwynwyd y CSCA ym mis Mawrth 2017, roedd y Cyngor yn dal yn y broses o gadarnhau blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion ac nid oedd yn gallu cynnwys unrhyw ddatganiadau yn y CSCA mewn cysylltiad ag unrhyw uchelgeisiau sydd ynghlwm wrth gynlluniau buddsoddi arfaethedig o dan Fand B.

Tynnwyd sylw at yr amserlenni sy'n gysylltiedig â dogfen strategol gan nodi efallai y byddai'n fwy buddiol ystyried cynllun mwy hirdymor. Cydnabuwyd hefyd fod diffyg alinio rhwng amserlenni CSCA ac amserlenni Rhaglen Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Pan oedd yr amserlenni'n caniatáu hynny, ychwanegwyd gwybodaeth ychwanegol at y CSAC oedd yn cynnwys:

- Gwybodaeth yn ymwneud â chynyddu darpariaeth Cymraeg trwy gyfrwng cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Addysg, Band B.
- Cynnwys manylion y CDLI
- Manylion am ddyddiadau dalgylch Hamadryad

- Cynnwys bwriad Caerdydd i gyrchu cyllid cyfalaf
- Diweddariad ar y capasiti Cymraeg yn 2017

Ailgyflwynodd Caerdydd y CSCA diwygiedig ym mis Chwefror 2018 ac roedd yn un o 15 awdurdod lleol i'w cynlluniau gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog dros y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan, ar 16 Mawrth 2018.

**P**ae'r Cyngor yn y broses o gwblhau cynllun gweithredu CSCA 2017-2020 ar gyfer y ddinas. Bydd hyn yn canolbwyntio ar sicrhau effeithiolrwydd a gwneud defnydd effeithlon ar adnoddau a phartneriaethau cryf i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Mae Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn bartneriaid allweddol wrth helpu i arwain a llywio datblygiad addysg Gymraeg ledled y ddinas a bydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni'r uchelgais sydd o fewn CSCA 2017-2020.

Gellir gweld y ddogfen a gymeradwywyd ar wefan y Cyngor:  
<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Addysg/Pages/default.aspx>



# 5. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg 2017-18

Yn ystod 2017/18, daeth cyfanswm o **16** o gwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg i law – gweler **Atodiad 3** am ragor o wybodaeth. Pa un ai a ddaeth y cwynion i law drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r weithdrefn gwyno gorfforaethol.

Roedd y Cyngor hefyd yn destun 3 ymchwiliad i'r methiant posibl i gydymffurfio â'r safonau o dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn 2017/18 derbyniodd y Cyngor:

- **7** penderfyniad terfynol yn cadarnhau ein bod wedi torri'r safonau.
- **2** benderfyniad yn cadarnhau y byddai'r ymchwiliad yn cael ei ddirwyn i ben.

Mae'r Cyngor yn aros ar hyn o bryd am hysbysiadau penderfyniad terfynol ar **3** ymchwiliad. Mae cofrestr o gamau gorfodi ar gael i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Gorfodi%20safonau/Cofrestr%20camau%20gorfodi/Pages/ygofrestr.aspx>

Nifer yr ymchwiliadau newydd sydd wedi dod i law Comisiynydd y Gymraeg yw **84.2%**, sy'n is nag yn 2016-17, ac mae nifer y cwynion cyhoeddus parthed safonau'r Gymraeg hefyd wedi gostwng.



# 6. Swyddi a hysbysebwyd yn 2017-18

Yn ystod 2017-18 hysbysebwyd **1017** o swyddi – gweler Atodiad 4 am fanylion y swyddi Cymraeg Hanfodol a hysbysebwyd.

- Hysbysebwyd **43** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- Hysbysebwyd **53** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol.
- Hysbysebwyd **921** o swyddi, lle ystyriwyd nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol ar hyn o bryd.
- Nodwch fod y ffigyrau hyn hefyd yn cynnwys swyddi wedi'u hail-hysbysebu.

**P**an ddes gwybodaeth ar hyn o bryd gan y Cyngor yn ymwneud â sgiliau Cymraeg, y mae gofyn eu dysgu pan gaiff pobl eu dynodi i swyddi, oherwydd dan Strategaeth Sgiliau Cymraeg y Cyngor caiff swyddi eu dynodi un ai fel rhai Cymraeg hanfodol, dymunol neu nad oes ei hangen. Mae achosion wedi bod pan fo swyddi wedi'u hail-hysbysebu gan ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeiswyr llwyddiannus fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg.



# 7. Cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Yn 2017-18, dilynodd **175** o aelodau staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, o'r rheiny:

- Bu **71** aelod staff ar y cwrs blasu 2 ddiwrnod iaith Cymraeg mewnol ym mis Gorffennaf 2017.
- Cwblhaodd **19** aelod staff gwrs ar-lein 10 awr 'Croeso Cymraeg'.
- Dilynodd **72** aelod staff gyrsiau Cymraeg drwy Brifysgol Caerdydd.
- Dilynodd **8** aelod staff gyrsiau preswyl 5-diwrnod drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.
- Dilynodd **5** aelod staff hyfforddiant Cymraeg dwys drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.

Yn 2017-18, cwblhaodd **259** aelod staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, ac o'r rheiny:

- Cwblhaodd **50** o Reolwyr Gweithredol hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith drwy'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith'.
- Cwblhaodd **25** aelod staff o'r gwasanaethau Plant ac Oedolion hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a ddarperir gan y cydlynnydd iaith ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae 38 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gan y cydlynnydd.
- Mae **184** aelod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ymwybyddiaeth iaith Corfforaethol.

Ymhellach:


- Mae **1,994** o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth iaith ers ei lansiad ym mis Medi 2015.
- Mynychodd 19 o Gynghorwyr sesiwn ymwybyddiaeth iaith a ddarparwyd drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith ym mis Medi 2017.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar y System AD fewnol (DigiGOV).

Mae safon rhif 128 wedi'i chyflwyno i Gyngor Caerdydd, sy'n nodi fod yn rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- Sefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Mae trefniadau wedi eu sefydlu i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2017-18 gofynnodd 4 aelod o staff am hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol, a 6 aelod o staff am hyfforddiant Cofi a Chario yn y Gymraeg. Darparwyd yr holl



wybodaeth ar gyfer y cwrs yn Gymraeg; fodd bynnag, cyflwynwyd y cwrs ei hun yn Saesneg gan nad oedd niferoedd digonol i gyflwyno'r cwrs yn Gymraeg.

Yn 2018/19 bydd swydd Arweinydd Darparu Gwasanaeth (Cymraeg) yn cael ei chreu er mwyn cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg i staff y Cyngor. Nid yn unig y bydd hyn yn ein galluogi fel sefydliad i wella sgiliau staff mewn gwasanaethau allweddol, ond hefyd y bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau. Disgwylwn i hyn fod yn ffordd fwy effeithiol o hyfforddi staff yn ogystal â chyfrannu at waith creu incwm ehangach yr Academi.



# 8. Sgiliau Cymraeg y Gweithwyr

Mae datblygiad y system AD (DigiGOV), a'r cyfle i aelodau staff ddilysu eu data personol eu hunain, wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) aelodau staff. Ar 31 Mawrth 2018, nodwyd bod 6,258 o aelodau staff (nad ydynt mewn ysgolion) wedi'u cyflogi gan Gyngor Dinas Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o **4,274** o aelodau staff eu ceisiadau ar y system AD. O'r rhain mae **427** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau yn y Gymraeg. Hynny yw, 9.81 % o'r rhai sydd wedi cofrestru ar y system.

Mae nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg wedi cynyddu **76.4%** ers 2016-17. (427 o'i gymharu â 242). Gellir priodoli cynnydd o'r fath yn rhannol i drefniadau cofnodi gwell a chodi ymwybyddiaeth, yn ogystal ag yn sgil Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg a chysiau Cymraeg trwy'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Mae staff wedi eu hatgoffa'n rheolaidd i ddiweddarau eu cofnod personol ar DigiGOV, sy'n cynnwys hyfedredd yn y Gymraeg.

Ym mis Hydref 2017, fel datblygiad pellach, gall staff erbyn hyn gofnodi a diweddarau lefel eu sgiliau Cymraeg ar DigiGOV yn unol â'r 5 lefel sydd ar y fframwaith Cymraeg i oedolion (mynediad – sylfaen – canolradd – uwch – hyfedredd), sydd wedi golygu bodd modd cofnodi lefelau sgiliau Cymraeg staff yn gywirach. Bydd staff sydd eisoes wedi cofnodi lefel eu sgil Cymraeg yn y categorïau '*dim/sylfaenol iawn – gweddol – da – da iawn*' yn cael eu hatgoffa i ddiweddarau eu cofnod yn unol â lefelau Cymraeg i oedolion yn 2018/19.

Categoriâu Cymraeg blaenorol	Categoriâu Newydd Lefelau Cymraeg i Oedolion
Dim/Sylfaenol Iawn	Mynediad (1)
-	Sylfaen (2)
Gweddol	Canolradd (3)
Da	Uwch (4)
Da iawn	Hyfedredd (5)



# 9. Mwy na Geiriau

## Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

### Adroddiad Cynnydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Caerdydd 2017/18

Mae amcanion Mwy na Geiriau wedi eu cwmpasu yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22. Mae'r strategaeth yn gosod blaenoriaeth ar gynyddu cyfleoedd i bobl dderbyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Gymraeg, ac yn nodi'r camau gweithredu canlynol:

- Sicrhau bod Cynnig Actif o wasanaethau Cymraeg yn cael ei rannu â holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac o fewn gwasanaethau a gomisiynir.
- Cynnwys gwasanaeth Cymraeg ym manylebau contractau, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant trydydd sector ac annibynnol lle bo angen.
- Sicrhau ein bod yn gallu darparu cymaint o wasanaethau â phosibl yn Gymraeg. Lle nodir bylchau o ran capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad.

I hwyluso cynnydd y camau hyn ymhellach a'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Olymol Mwy na Geiriau, mae fforwm Mwy na Geiriau yn cael ei sefydlu mewn partneriaeth ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Bydd hyn yn gwella cydlynid gweithgareddau Cymraeg gyda phartneriaid, a bydd yn allweddol i ddatrys heriau mewn modd cydlynol.

Gwnaed y cynnydd canlynol ar yr amcanion a nodwyd yn Mwy na Geiriau:

### Amcan 1: Arweiniad Cenedlaethol a Lleol, a Pholisi Cenedlaethol

- Mae uwch swyddog yn parhau i ysgwyddo swyddogaeth Pencampwr y Gymraeg ar draws cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Cefnogir y pencampwr gan ddau gydlynnydd y Gymraeg.

### Amcan 2: Mapio, Archwilio, casglu Data ac Ymchwilio

- Proffiliwyd yr angen am wasanaethau Cymraeg yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Mae cwestiynau wedi cael eu newid yng nghronfa ddata corfforaethol staff Cyngor Caerdydd mewn ymgais i gael darlun mwy cynhwysfawr a diweddar o'r capasiti i ddarparu cynnig rhagweithiol.
- Mae cwestiynau wedi eu hychwanegu at system cofnodion cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol (Care First) i gofnodi'r cynnig rhagweithiol.
- Mae manylion sgiliau Cymraeg y gweithlu a phroffil y gymuned Gymraeg ei hiaith wedi eu cynnwys yn adroddiad blynyddol adran y gwasanaethau cymdeithasol.

### Amcan 3: Cynllunio Gwasanaeth, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu

- Mae staff ym mhob cornel o'r sefydliad yn parhau i gael eu hatgoffa am ofynion safonau'r Gymraeg a'r gofyn i wneud cynnig rhagweithiol trwy gyfrwng Cylchlythyr Materion Cymraeg a gaiff ei ddsbarthu i'r holl staff ar e-bost.



- Mae angen gwneud mwy o waith i gyfleu safonau'r Gymraeg i drydydd parti. Mae cynlluniau i ddefnyddio Fforwm y Darparwyr sy'n bod eisoes ar gyfer hyn. Yn ystod 2018/19 bydd cyfle hefyd i dreialu gwersi Cymraeg gyda staff y sector annibynnol er mwyn cefnogi darparu gwasanaethau gofal Cymraeg
- Mae strategaeth gweithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfle i ddeall yn well y bylchau a gwneud y gorau ar botensial. Bydd camau'n cael eu datblygu i fwrw ymlaen â hyn yn ystod 2018 – 2019.
- Proffiliwyd yr angen am wasanaethau Cymraeg yn Asesiad Anghenion y Boblogaeth ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Mae adroddiad cyhoeddiedig blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys ymrwymiad i'r Gymraeg.

#### **Amcan 4: Hyrwyddo ac Ymgysylltu**

- Caiff cortynnau gwddw eu cynnig i'r holl staff, i'w hannog i nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr.
- Cysgliad (gwirydd sillafu Cymraeg) ar gael i'r holl staff.

#### **Amcan 5: Addysg ac Amcan 6: Cymraeg yn y Gweithle**

- Mae cyfleoedd hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnig yn rheolaidd ar draws y gwasanaeth. Cynigir hyfforddiant i bawb o ddechreuwr i ddysgwyr mwy profiadol.
- Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn elfen orfodol o hyfforddiant sefydlu yn y maes gofal cymdeithasol ac mae'n rhan o'r rhaglen ymgynefino â lleoliadau gwaith cymdeithasol ac elfen hanfodol o'r rhaglen hyfforddiant Tair Blynedd Cyntaf Ymarferol.
- Cynigiodd Caerdydd Ddwieithog hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith penodol i bob Rheolwr Gweithredol yng Nghyngor Caerdydd yn ystod 2017/18, ac mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth y Gymraeg ar gael yn gyson i bob aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddwyd hyfforddiant penodol i staff gwasanaethau dydd er mwyn paratoi ar gyfer agor Canolfan Ofal Ddydd Dementia yn Nhrelái.



# 10. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau

## CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETH

I fonitro'r gwaith o gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, disgwylir i bob cyfarwyddiaeth gynnwys amcan/ion yn ymwneud â chyflawni safonau'r Gymraeg o fewn eu Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethol bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod gofynion y safonau wedi'u perchenogi'n gorfforaethol. Mae'r amcanion a gafodd eu cynnwys yng nghynlluniau cyflawni'r Gyfarwyddiaeth wedi eu nodi yn Atodiad 5.

## GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG

Sefydlwyd grŵp traws bleidiol Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwieithog i arwain y gwaith o lunio Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gyrchu gwasanaethau a chael yr un cymorth yn y naill iaith neu'r llall trwy wella gwaith partneriaeth. Yn ystod 2017-18, cyfarfu'r grŵp ddwy waith i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, yn bennaf y gwaith o weithredu Safonau newydd y Gymraeg a datblygu Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2017-2022 (Safon 145)

## PENCAMPWYR A CHYDLYNWYR Y GYMRAEG

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ar draws ein Cyfarwyddiaethau a'n Gwasanaethau amrywiol, sy'n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwieithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg ac hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol. Mae rôl y rhwydwaith cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu gyfarwyddiaethau i gydymffurfio â pholisïau ac ymrwymiadau cyfreithiol y Cyngor i'r Gymraeg.
- Rhoi adborth ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan y gwasanaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth ar unrhyw gwynion neu faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb y gwasanaeth i'r Adroddiad Blynyddol ar weithredu Safonau'r Gymraeg.

Nid oes angen i Gydlynwyr a Phencampwyr allu siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am enwebu o leiaf un Cydlynnydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli eu cyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwr yn bwynt cyswllt ar lefel uwch reoli o ran materion Cymraeg penodol i'r Gyfarwyddiaeth. Mae hefyd yn monitro agendau'r grŵp rheoli am eitemau â goblygiadau i Safonau'r Gymraeg ac yn cynorthwyo Cydlynnydd Cymraeg y gwasanaeth â'i waith wrth hwyluso rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn y gyfarwyddiaeth.

Cynhelir cyfarfodydd cydlynwyr bob mis yn Neuadd y Sir, dan gadeiryddiaeth Caerdydd Ddwieithog, ac mae rhestr o Gydlynwyr a Phencampwyr ar gael ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwieithog.

### **UWCH DÎM RHEOLI**

Mae materion yn ymwneud a safonau'r Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg yn cael eu cyflwyno gerbron yr UDRh yn rheolaidd o ran cyflwyno gwybodaeth a rhoi arweiniad.

### **CABINET A CHYNGOR LLAWN**

Caiff adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau craffu ar y lefel uchaf.



# 11. Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2016-17

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei hadroddiad sicrwydd blynyddol 2016-17 '*Hawliau'n Gwreiddio*'. Mae'r adroddiad yn asesu sefyllfa gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg yn gyffredinol, ac mae'n dangos fod gwasanaethau ar draws Cymru yn gwella. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, cafwyd cyfarfod rhwng y Cyngor a swyddogion y Comisiynydd lle rhannwyd a thrafodwyd canfyddiadau penodol mewn cysylltiad â perfformiad y Cyngor.

Roedd perfformiad y Cyngor yn dda yn gyffredinol:

- Ymdriniwyd â phob galwad i C2C yn Gymraeg.
- Roedd mwyafrif llethol y negeseuon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn Gymraeg a Saesneg (224/241 Twitter a 110/118 Facebook).
- Ymatebwyd i 1 o bob 2 e-bost, sef yr un gyfradd ag e-byst Saesneg.
- Ymatebwyd i bob llythyr Cymraeg, er nad oedd hynny'n wir am bob llythyr yn Saesneg.
- Roedd pob tudalen gwe ar gael yn Gymraeg.
- Roedd yr holl ddogfennau yn ymwneud â'r modd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau yn cydymffurfio'n llawn.
- Roedd y strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd (Caerdydd Ddwieithog 2017-22) yn cydymffurfio.

Nododd arolwg y Comisiynydd fod lle i wella yn y meysydd canlynol:

- Nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn y dderbynfa yn ystod ymweliad eu hymwelydd cêl (0 o 2).
- Dim ond 1 o 2 dderbynfa oedd yn dangos y poster 'Cymraeg' (safon 67)
- Facebook – ymatebwyd i 1 o 2 ymholiad, o'i gymharu a 2 o 2 ymholiad yn Saesneg.
- Roedd gwallau/problemau cydymffurfio ar 3 tudalen gwe allan o 45 e.e. dolenni ddim yn gweithio neu rywfaint o destun yn dal i fod yn y Saesneg.
- Nid oedd rhai dogfennau yn cydymffurfio â'r safonau.

Cysylltwyd â phob gwasanaeth a aeth yn groes i safonau'r Gymraeg ac mae'r adroddiad ynghyd â chanlyniadau unigol y Cyngor wedi eu dosbarthu i'r holl uwch reolwyr o fewn yr awdurdod. Yn ogystal â rheoli risg, fel awdurdod lleol rydym yn parhau i geisio sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael yr un gwasanaethau o safon uchel boed nhw'n dewis ymwneud â ni yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

# 12. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau

## CANLLAWIAU STAFF

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau, mae'r Cyngor wedi creu a diweddarau canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o'r 'Safonau Darparu Gwasanaethau'
- Cyfathrebu'n Ddwieithog
- Gwasanaeth Derbynfa Dwyieithog
- Cynnal Cyfarfodydd Dwyieithog
- Galwadau Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Dwyieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw ar Enillion Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Parti

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar Fewnwyd Caerdydd Ddwieithog ac maent wedi eu hyrwyddo i staff yn gyson trwy ddulliau cyfathrebu cyfarwydd gan gynnwys y Briff Craidd misol a chylchlythyron 'Materion Cymraeg' a gaiff eu dosbarthu i'r holl staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan mewnwyd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau staff ar dudalen fewnwyd Caerdydd Ddwieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen ar gyfer gwneud cais am gyfieithiad ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen i wneud cais am gyfieithiad wedi'u diweddarau i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 4 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

## BRIFF 'MATERION CYMRAEG'

Caiff briff Materion Cymraeg ei ddosbarthu i staff trwy gyfrwng y rhwydwaith cydlynwyr y Gymraeg. Mae'r briff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio a safonau'r Gymraeg, gwybodaeth ar hyfforddiant Cymraeg ac erthyglau eraill yn ymwneud ag agenda'r Gymraeg.

## CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYNGOR POLISI A CHYFIEITHU

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg statudol.

## STRATEGAETH CORFFORAETHOL SGILIAU'R GYMRAEG

Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor fodloni ei ddyletswydd statudol i roddi gwasanaeth cwbl ddwyieithog mae ganddo Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Gorfforaethol (SSIGG). Cymeradwywyd y strategaeth ddiwygiedig hon gan y Cabinet ym mis Mawrth 2014 ac mae'n dwyn ein gweithdrefnau staffio, hyfforddiant a recriwtio ynghyd er mwyn sicrhau bod gan bobl Caerdydd fynediad cydradd at ein gwasanaethau p'un a ddewisent ddelio â ni'n Gymraeg neu Saesneg.

Mae pob rheolwr tîm yn gyfrifol am sicrhau bod eu timau'n gallu sicrhau gwasanaeth cydradd i gwsmeriaid Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Mae'r SSIGG yn cynnwys adnodd asesu ieithyddol y dylai rheolwyr ei gwblhau wrth recriwtio i benderfynu p'un ai a ddylai sgiliau Cymraeg fod yn hanfodol ('Cymraeg hanfodol') wrth hysbysebu swydd.

O fis Hydref 2017, mae adnodd asesu ieithyddol SSIGG bellach wedi'i integreiddio ym mhroses recriwtio DigiGOV i gydymffurfio â safon 136 sy'n gofyn i'r Cyngor asesu p'un ai a oes angen sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu unrhyw swydd wag. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i adrodd a monitro'n gywir sawl swydd a ddynodir yn Gymraeg hanfodol neu ddymunol.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth dwyieithog ar y pwynt cyswllt cyntaf ar bob adeg (i dimau sy'n delio â'r cyhoedd yn rheolaidd) byddai hyn yn gofyn am i:

- o leiaf 10% o staff mewn timau mwy (20+ aelod) yn meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol, neu
- o leiaf 2 aelod o staff mewn timau llai, yn unol â'r SSIGG.

Os nad yw tîm sy'n delio'n rheolaidd â'r cyhoedd yn gallu sicrhau gwasanaeth dwyieithog (fel y'i diffinnir uchod) caiff swyddi eu dynodi'n Gymraeg hanfodol (lefel 1 [mynediad] i 5 [hyfedr]) yn swyddi aeliedig ar ddyletswyddau'r swyddi. Mae pob swydd derbynfa Gymraeg hanfodol wedi eu dynodi ar o leiaf lefel 3 'canolradd', ac mae gwybodaeth ar sut i gwblhau'r asesiad Cymraeg ar DigiGOV ar gael i reolwyr ar dudalennau rhyngwyr AD.

Fel arfer caiff pob swydd Cymraeg Hanfodol allanol ei hysbysebu ar [www.lleol.cymru](http://www.lleol.cymru) gwefan yn arbenigo mewn hysbysebu swyddi Cymraeg hanfodol ar ran sefydliadau ledled Cymru. Ers hysbysebu gyda [www.lleol.cymru](http://www.lleol.cymru), mae nifer y ceisiadau ar gyfer swyddi Cymraeg hanfodol wedi cynyddu 29% ar gyfartaledd ers 2016/17.

### **HYFFORDDIANT CYMRAEG**

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o blith dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar adeg a lleoliad sy'n gyfleus iddyn nhw.

Ceir cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Cymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff unigol Cyngor Caerdydd na'u cyfarwyddiaethau a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynychu cyrsiau. Rhoddir blaenoriaeth i staff rheng flaen.

Trwy gyfrwng y cynllun 'Cymraeg Gwaith', mae staff y Cyngor wedi dilyn nifer o gyrsiau Cymraeg gan gynnwys cwrs 10 awr 'Croeso i'r Gymraeg', cwrs preswyl 5 diwrnod a chysiau dwys newydd. Caiff y cyrsiau hyn eu hariannu yn llawn gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

### **HYFFORDDIANT YMWHYBYDDIAETH IAITH GYMRAEG AR-LEIN**

Mae modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth y Gymraeg wedi'i lunio ar gyfer staff Cyngor Caerdydd, ac ar gael ar safle Cronfa Ddysgu Academi Caerdydd.

Nod y cwrs yw sicrhau bod staff yn:

- Deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran cynnig gwasanaethau'r Cyngor yng Nghymru.
- Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut maent yn cynnig gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.
- Deall a gallu defnyddio geiriau a brawddegau syml wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg.

Cwblhaodd 50 o Reolwyr Gweithredol hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith drwy'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith'. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- Cyflwyniad i gyd-destun y polisi presennol;
- Gwybodaeth ynghylch yr angen i gynllunio gweithleoedd dwyieithog;
- Gwybodaeth am fanteision datblygu dwyieithrwydd sefydliadol i'r dysgwr, cwsmeriaid, aelodau staff eraill ac i'r sefydliad;
- Cyngor ar sut i ddadansoddi anghenion dysgu parthed y Gymraeg yn eich sefydliad;

- Cyngor ar yr hyfforddiant sydd ar gael gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Cyngor ar roi cefnogaeth i ddysgwyr yn y gweithle; a
- Cyfle i drafod a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **BATHODYNNAU A CHORTYNNAU GWDDF 'IAITH GWAITH'**

Caiff cortynnau gwddf Iaith Gwaith eu cynhyrchu gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr fod staff yn siarad Cymraeg. Caiff y cortynnau hyn a chortynnau i ddysgwyr eu cynnig i staff pan fyddant yn derbyn neu adnewyddu eu cardiau adnabod, neu ar gael ar unrhyw adeg gan Caerdydd Ddwyeithog.. Mae pob 'Materion Cymraeg' misol a gaiff ei ddsbarthu i staff trwy eu cyfarwyddiaeth neu eu cydlynnydd Cymraeg yn cynnwys nodyn yn atgoffa staff i ofyn am gortynnau gwddf gan Caerdydd Ddwyeithog.



# 13. Safonau'r Gymraeg – Camau Gweithredu hyd yma

Gweler isod fesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion newydd o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg.

SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU	
Safonau	Camau Gweithredu
<p>Page 89</p> <p>Gohebiaeth</p>	<p>Mae holl e-byst allanol y Cyngor yn ogystal â'r papur pennawd corfforaethol newydd yn cynnwys y datganiad canlynol o fewn y troedyn er mwyn cydymffurfio â gofynion safonau 2, 3 a 7.</p> <p><i>Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi.</i></p> <p><i>Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi.</i></p> <p>Mae canllawiau ar 'Gyfathrebu'n Ddwyieithog' wedi'u cyhoeddi ar dudalen fewnwyd Caerdydd Ddwyieithog er mwyn gynorthwyo aelodau staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.</p> <p>Cyfarwyddiaethau unigol sy'n rheoli cofnodion dewis iaith eu cwsmeriaid, ac os nad yw dewis iaith yn wybyddus (e.e pan fydd y Cyngor yn gohebu yn gyntaf) caiff yr ohebiaeth ei gyrru yn ddwyieithog.</p>

Safonau	Camau Gweithredu
<b>Gwasanaethau Ffôn</b>	<p>Mae canllawiau staff ar alwadau Cymraeg wedi'u cyhoeddi er mwyn cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn. Daw mwyafrif llethol y galwadau ffôn i ganolfan gyswllt C2C y Cyngor, sydd â thîm Cymraeg priodol.</p> <p>Ar y cyfeiriadur ffôn canolog, gall staff ddefnyddio hidlydd i weld yr holl siaradwyr Cymraeg o fewn eu gwasanaeth / Cyfarwyddiaeth.</p> <p>Mae cyngor ar sut i ddarparu gwasanaethau Cymraeg effeithiol wedi eu cyfathrebu'n rheolaidd i staff trwy gyfrwng 'Materion Cymraeg'.</p>
<b>Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus</b>	<p>Mae canllawiau staff newydd ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog wedi'u cyhoeddi er mwyn cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.</p> <p>Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewnol i bob Cyfarwyddiaeth a gwasanaeth.</p> <p>Bydd tîm Digwyddiadau'r Cyngor yn sicrhau fod gofynion y Gymraeg wedi eu cynnwys mewn contractau ar gyfer digwyddiadau lle mae'r Cyngor yn bartner. Mae'r holl staff wedi derbyn canllawiau a rhestr wirio Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer trefnu digwyddiadau drwy'r brîff misol Materion Cymraeg.</p>
<b>Deunydd Arddangos, Arwyddion a Hysbysfyrddau</b>	<p>Mae Arwyddion a Hysbysfyrddau yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf yn unol â'r safonau. Mae nodyn cyngori corfforaethol ar arwyddion a hysbysfyrddau ar gael ar dudalen rhynggrwyd Caerdydd Ddwyieithog ac ar System Wybodaeth Caerdydd (SWC), ac fe gaiff staff eu hatgoffa yn rheolaidd o'r gofynion hyn. Caiff contractwyr sy'n gweithio i'r Cyngor eu hatgoffa'n rheolaidd</p> <p>Ers mis Medi 2017, yn unol â cham gweithredu yn Strategaeth Caerdydd ddwyieithog 2017-22; mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y caiff testun Cymraeg ei arddangos yn gyntaf ar unrhyw ddeunyddiau arddangos a gaiff eu cynhyrchu gennym.</p>
<b>Dogfennau a Ffurflenni</b>	<p><b>Safon 41:</b> Caiff agendau a chofnodion eu llwytho drwy gyfrwng safle Cardiff Modern.Gov. Mae papurau cyfarfod ar gael yn Gymraeg ar gyfer eitemau yn ymwneud â'r Gymraeg gan gynnwys Addysg Gymraeg.</p> <p><b>Safonau 49/50A:</b> Mae ffurflen gais cynnwys gwefan y Cyngor a ffurflen gais cyfieithu ac e-byst dychwelyd gwaith cyfieithu yn atgoffa'r holl staff i gynnwys y geiriad canlynol yn unol â safonau 49 a 50A.</p> <p><i>This document is available in Welsh / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.</i>  <i>This form is available in Welsh / Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg.</i></p> <p><b>Safonau 42-48:</b> Mae gweithdrefn cyfieithu Cymraeg y Cyngor wedi'i sefydlu ers dros 10 mlynedd ac mae'n wybyddus gyfarwyddiaethau ac i staff. Mae canllawiau ar y dogfennau y mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w gweld ar dudalen rhynggrwyd Caerdydd Ddwyieithog a SWC. Mae Caerdydd Ddwyieithog hefyd ar gael i gynnig cyngor ar bolisi i staff yn ôl yr angen.</p>

Safonau	Camau Gweithredu
<p><b>Gwasanaethau Derbynfa</b></p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Page 91</p>	<p>Mae canllawiau ar wasanaethau derbynfa dwyieithog ar gael er mwyn cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r gofynion hyn.</p> <p>Rydym ni'n parhau i weithredu Strategaeth Sgiliau Cymraeg Corfforaethol y Cyngor sy'n bwriadu cynyddu nifer y staff â sgiliau Cymraeg mewn swyddi rheng flaen. Mae'r Strategaeth hon yn sicrhau y caiff gofynion ieithyddol pob swydd rheng flaen eu hasesu, ac y dynodir y Gymraeg yn ofyniad hanfodol, dymunol neu nad oes gofyniad ieithyddol yn unol â hynny.</p> <p>Mae gwasanaethau derbynfa dwyieithog ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir, fodd bynnag, mae safon 64 yn ymwneud â derbynfeydd eraill yn parhau i fod yn heriol. Pan ddaw'r swyddi hyn yn wag a'u llenwi, caiff y Gymraeg ei dynodi'n hanfodol nes y gall y tîm warantu gwasanaeth rheng flaen dwyieithog. Diffinnir hyn fel isafswm o 2 aelod o staff neu o leiaf 10% o dimau mwy.</p> <p>Rydym ni'n parhau i gynnig pecyn hyblyg o gyrsiau Cymraeg a ariennir yn gorfforaethol ar gyfer aelodau staff, ac a redir gan y tîm Cymraeg i Oedolion (Prifysgol Caerdydd). Gall aelodau staff fynychu dros 100 o gyrsiau ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg ar adegau ac mewn lleoliadau sy'n addas ar eu cyfer nhw a'u gwaith, gan gynnwys cwrs Cymraeg ar-lein newydd.</p> <p>Yn sgil ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i wasanaeth derbynfa Neuadd y Sir (2016) mae cynllun gweithredu newydd wedi ei greu a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd. Mae'r cynllun gweithredu, a gymeradwywyd gan yr UDRh, yn gofyn i staff derbynfa rheng flaen gwblhau rhywfaint o hyfforddiant Cymraeg, un ai trwy gyrsiau wyneb yn wyneb neu ar-lein er mwyn gallu cyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog. Bydd y gweithredu yma yn parhau yn 2018/19.</p>
<p><b>Cyfryngau Cymdeithasol, Gwefannau a Gwasanaethau Ar-lein</b></p>	<p>Caiff gofynion yr iaith Gymraeg eu hystyried o ddifri fel rhan o unrhyw friff project neu fandad project newydd fel rhan o'r datganiad gofynion.</p> <p>Mae TGCh yn parhau i roi gwybod i gwsmeriaid fod ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu deunydd Cymraeg gyda phob prosiect sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Maent yn rhoi gwybod am hyn yn ystod y cam briffio. Cyfrifoldeb y cwsmer yw penderfynu a oes angen deunydd dwyieithog ar gyfer unrhyw system newydd ar ôl derbyn y cyngor hwn, felly eu cyfrifoldeb hwy yw bodloni ei hunain eu bod yn diwallu'r safonau. Mae Tim y We yn edrych yn fanwl ar bob adran o <a href="http://www.caerdydd.gov.uk">www.caerdydd.gov.uk</a> i sicrhau y caiff y Gymraeg ei chyhoeddi ar bob tudalen. Mae hyn yn cynnwys gwirio tudalennau, ffurflenni, dogfennau, dolenni ac ati, a gwirio bod dewis English / Cymraeg yn ymddangos wrth we-lwio. Mae hyn yn cynnig dolen uniongyrchol rhwng y cynnwys Saesneg a'r cynnwys Cymraeg cyfatebol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol gwbl ddwyieithog ar Facebook a Twitter. Caiff staff eu hatgoffa yn aml drwy sianeli cyfathrebu sefydledig o'r angen i sicrhau bod unrhyw gyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, ar gael yn Gymraeg.</p>



Safonau	Camau Gweithredu
<p><b>Cyrsiau Addysg</b></p>	<p>Mae ffurflenni cofrestru Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) wedi eu diweddarau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Mae'r ffurflenni bellach yn gofyn dau gwestiwn i'r dysgwyr:</p> <p><i>A ydych yn dymuno cael gohebiaeth gennym yn Gymraeg neu Saesneg?</i>  <i>A ydych yn dymuno dilyn y cwrs hwn drwy gyfrwng y Gymraeg?</i></p> <p>Caiff yr atebion eu cofnodi ar broffiliau dysgwyr y system reoli EBS.</p> <p><b>Safon 84</b>  O'r data a gasglwyd uchod, gall DOG redeg adroddiadau yn asesu'r angen am gyrsiau yn y Gymraeg. Yn 2017, mae 20 unigolyn wedi gofyn am gyrsiau yn y Gymraeg; o'r rhain dim ond dau o'r 20 sydd ar yr un cwrs. O ganlyniad, nid oedd DOG gallu cynnig darpariaeth yn y Gymraeg am nad oedd y nifer digonol isaf posib ar gael i redeg cwrs hyfforddi. Mae'r 20 unigolyn hefyd yn cynnwys 2 berson ar gyrsiau Cyngor i Mewn i Waith</p> <p><b>Safon 86</b>  Edrychodd DOG ar yr holl ddysgwyr yn 2016 i asesu'r angen am gyrsiau cyfrwng Cymraeg – cyhoeddwyd y canlyniadau ar wefan y Cyngor. Ar ben hynny, ychwanegwyd cwestiwn at Arolwg Holi Caerdydd 2017 i asesu'r angen. Nid oedd y canlyniadau yn awgrymu fod angen cynnig cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn 2017/18.</p>
<p><b>Dyfarnu Grantiau a Chytundebau</b></p>	<p>Mae dogfennau grant perthnasol yn adlewyrchu gofynion safonau'r Gymraeg, a gofynnir i bob ymgeisydd grant nodi eu dewis iaith.</p> <p>Mae manylebau tendrau wedi eu diweddarau i adlewyrchu gofynion y safonau. Mae'r "Canllaw Gwerthu i'r Cyngor" newydd yn cynnwys y datganiad canlynol.</p> <p>"Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), gellir cyflwyno tendrau yn Saesneg neu'n Gymraeg. Ni chaiff tendr ar gyfer contract a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg eraill, materion mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer hysbysu'r rhai sy'n cyflwyno tendr ynghylch yr hyn a gaiff ei benderfynu). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu â'r rhai sy'n cyflwyno tendr yn eu dewis iaith, boed hynny'n Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog."</p> <p>Bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewnol ar gyfer unrhyw gyfweiliadau tendro, a bydd y Telerau ac Amodau safonol ar gyfer contractwyr gwasanaethau yn cynnwys cymal wedi'i ddiweddarau sy'n ymdrin â'r gofynion deddfwriaethol newydd.</p> <p>Mae swyddogion yn adran Gyfreithiol y Cyngor wedi derbyn cyfarwyddiadau i gynnwys y cymal canlynol ynglŷn â'r Gymraeg sydd wedi'i ddiweddarau, a hynny ym mhob contract.</p>

Safonau	Camau Gweithredu
	<p>Yn ystod Cyfnod y Cytundeb, bydd y Contractwr yn cytuno i gydymffurfio â'r gofynion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i'r graddau y maent yn gysylltiedig â'r gwaith o ddarparu/ cynnal y **** (Gwasanaethau, Gwaith, Grant).</li> <li>• Mae copi o safonau'r Gymraeg ar gael yn <a href="https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwyieithog/Pages/default.aspx">https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Caerdydd-Ddwyieithog/Pages/default.aspx</a></li> </ul> <p>Mae canllawiau'r Gymraeg newydd wedi eu cyhoeddi ar wefan caffael y Cyngor ar gyfer trydydd partion. Mae'n ganllaw hawdd ei ddarllen a baratowyd gan dîm Caerdydd Ddwyieithog er budd contractwyr, darpar gcontractwyr a staff comisiynu a chaffael y Cyngor. Ar ben hynny, crewyd rhestr wirio gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o roi'r safonau ar waith ac mae ar gael i staff ar SWG.</p>
SAFONAU LLUNIO POLISI	
Safonau	Camau Gweithredu hyd yn hyn
<p>Asesu Polisiâu</p> <p>Page 93</p>	<p>Mae'r Offeryn Integreiddio Polisi wedi'i ddatblygu'n Offeryn Sgrinio Polisi Statudol i adlewyrchu'r cyd-destun polisi esblygol. Mae nifer o ofynion statudol yn gymwys os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd yn y Cyngor sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd. Gall peidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn neu beidio â rhoi ystyriaeth briodol iddynt, olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol.</p> <p>Mae'r Offeryn Sgrinio Polisi Statudol wedi ei ymwreiddio yn y broses gorfforaethol ac yn mynd i'r afael â'r prif ofynion statudol sy'n berthnasol i'r Cyngor gan gynnwys Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd gysylltiedig o weithio (hir dymor, atal, integreiddio, cynnwys a chydweithio).</p> <p>Rhaid i bob corff cyhoeddus osod amcanion llesiant sydd wedi eu dylunio i wneud y gorau o'r cyfraniad a wna i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys nod llesiant 'Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg sy'n ffynnu'.</p> <p>Er mwyn sicrhau y caiff y Gymraeg ei hystyried yn elfen ganolog o unrhyw waith llunio polisi, mae wedi ei chynnwys ochr yn ochr â'r naw nodwedd a ddiogelir a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw effaith ar y Gymraeg ei ystyried ym mhob rhan o'r sefydliad.</p> <p>Mae'r broses i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion statudol yn cael ei adolygu'n barhaus yn unol â'r dirwedd polisi cyfnewidiol. Er enghraifft disgwylir y bydd rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn y dyfodol agos a fydd yn golygu y bydd rhaid adolygu'r drefn eto i sicrhau y cânt eu hystyried.</p>

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau newydd, mae'r offeryn sgrinio bellach yn gofyn:

**Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

	Ydw	Nac ydw	Ddim yn siŵr
4.1 Ydych chi wedi ystyried sut y gellir llunio'r polisi fel bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu effeithiau cadarnhaol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg?			
4.2 Ydych chi'n credu bod y polisi'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg?			


Os nad ydych yn siŵr o'ch atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â thîm Caerdydd Ddwieithog am gyngor ar (029) 2087 2527 neu e-bostiwch: CaerdyddDdwieithog@caerdydd.gov.uk

Gellir sicrhau bod pob asesiad a gwblheir ar gael, ac mae prosesau wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr holl strategaethau, polisiâu a gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu, os oes angen, drwy'r Offeryn Sgrinio. Mae'r Cyngor wedi helpu i sicrhau bod yr offeryn sgrinio'n ystyriaeth gorfforaethol, a bod yr holl gyfarwyddiaethau yn ei hystyried wrth lunio polisiâu, strategaethau a gweithgareddau newydd. Y gwasanaethau perthnasol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Tîm Corfforaethol yn ymwybodol o ddiweddariadau priodol ar gyfer polisiâu penodol.

**SAFONAU GWEITHREDOL**

Safonau	Camau Gweithredu
Polisi ar hyrwyddo'r defnydd ar y Gymraeg yn fewnol	<p>Crëwyd polisi newydd yn unol â'r gofyniad statudol a nodir yn safon 98 Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd i Gyngor Caerdydd. Cymeradwywyd y polisi gan y <b>Cabinet ar 14 Mehefin 2018</b>.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei weinyddiaeth fewnol, ac fel awdurdod prifddinas Cymru, cred Cyngor Caerdydd mewn gweithle dwyieithog lle mae defnyddio'ch Cymraeg yn cael ei werthfawrogi a'i annog.</p> <p>Nodau'r polisi hwn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu'r defnydd ffurfiol a chymdeithasol o'r Gymraeg ymhlith ein gweithlu drwy gyfleoedd dysgu a chymdeithasu rheolaidd, a chyfranogiad ehangach mewn amrywiaeth o rwydweithiau a digwyddiadau iaith ffurfiol ac anffurfiol.</li> <li>• Cynyddu'r cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, gwella eu hyder, a gwella'r gwasanaethau dwyieithog a ddarparwn</li> <li>• Hyrwyddo ac annog ethos gweithlu dwyieithog yn allanol gyda'r bwriad o ddenu mwy o staff dwyieithog.</li> </ul>

	<p>Daw'r polisi hwn ag arferion, polisiau ac adnoddau ynghyd o ran hyfforddiant Cymraeg, Safonau'r Gymraeg a'n dull corfforaethol o ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle. Drwy'r polisi hwn, byddwn yn gweithio at fod yn sefydliad cynyddol ddwyieithog lle caiff y ddwy iaith eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n naturiol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol.</p> <p>Nid yn unig y bydd hyn yn gwella ein gallu i gynnig gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog o safon uchel, bydd hefyd yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o brifddinas wirioneddol ddwyieithog, yn ogystal â sicrhau ein bod yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Byddwn yn adolygu'r polisi hwn ac yn croesawu adborth gan staff, rheolwyr ac aelodau ar unrhyw adeg o ran sut i gyflawni gwelliannau a mabwysiadu arfer gorau ar draws holl gyfarwyddiaethau'r cyngor.</p>
<b>Swyddi newydd</b>	Mae'r Cyngor yn cynnig contractau newydd i gyflogeion yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â'u dewis iaith.
<b>Gohebiaeth a Dogfennaeth Cyflogaeth Staff</b>	Oddi ar 2017/18 gall staff ddiweddarau eu manylion eu hunain ar DigiGOV er mwyn gallu dewis gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth yn y Gymraeg. Ar bob llythyr a gaiff ei gynhyrchu gan DigiGOV caiff rheolwyr eu hatgoffa i yrru gohebiaeth yn Gymraeg yn unol â dewis iaith yr aelod staff. Mae'r datblygiad hwn i system DigiGOV bellach yn golygu y caiff dewis iaith staff ei gofnodi'n gywir yn gorfforaethol a gellir ie ddiweddarau gan unigolyn ar unrhyw adeg (gweler adran 8 @Sgiliau Cymraeg cyflogeion' ar dudalen 10).
<b>Polisiau AD</b>	Mae polisiau a restrwyd yn safonau 105-111 ar gael yn ddwyieithog.
<b>Gwynion a Disgyblu</b>	<p>Mae polisi datrys cwynion y Cyngor yn cynnwys y cyfeiriad canlynol i hawliau staff sy'n dymuno cael gwybodaeth neu broses penodol ar gael yn Gymraeg.</p> <p>Dan Safonau'r Gymraeg, mae gan bob cyflogai yr hawl i wneud cwynion ac ymateb i gwynion neu honiadau a wnaed yn ei erbyn drwy'r broses ddisgyblu yn Gymraeg. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gohebiaeth, dogfennau ac unrhyw weithdrefnau, cyfarfodydd a chanlyniadau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd cysylltiedig oni bai eu bod yn cael eu cynnal yn Gymraeg heb wasanaethau cyfieithu.</p>
<b>Meddalwedd</b>	<p>Mae 'Cysgliad' (meddalwedd gwirio iaith Cymraeg) ar gael i bob aelod o staff sydd â chyfrifiadur desg, ac fe gaiff ei fodolaeth ei hyrwyddo yn gyson yn Materion Cymraeg ac erthyglau yn y Cylchlythyr Staff. Gall staff ofyn am gopi trwy'r Ddesg Gwasanaeth. Mae Windows ac Office hefyd ar gael yn Gymraeg, ac mae cyngor ar sut i newid gosodiadau iaith ar gael gan y gwasanaeth TGCh.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o sicrhau bod Cysgliad ar gael i bob aelod staff sydd wedi cofnodi bod ganddynt sgiliau yn y Gymraeg.</p>

<p><b>Mewnwyd</b></p>	<p>Mae'r dudalen gartref ac unrhyw dudalennau newydd a gaiff eu chyhoeddi ar ryngwrdd y Cyngor erbyn hyn yn ddwyieithog. Caiff erthyglau newyddion staff eu diweddarau'n ddyddiol a'u cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu rhyngwrdd cwbl ddwyieithog yn unol â'r gofyniad a'r terfyn amser a nodwyd yn safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd.</p> 
<p><b>Asesu sgiliau iaith</b></p>	<p>Atgoffir staff yn aml i ddilysu eu data personol eu hunain ar y system AD (DigiGOV). Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi gallu aelodau staff i siarad Gymraeg (ac ieithoedd eraill).</p> <p>Fel datblygiad pellach yn 2017/18, gall staff erbyn hyn gofnodi a diweddarau'n gywir lefel eu sgiliau yn y Gymraeg ar DigiGOV yn unol â'r 5 lefel sydd ar y fframwaith Gymraeg i oedolion (mynediad – sylfaen – canolradd – uwch – hyfedredd), sydd wedi golygu cofnod mwy cywir o lefel sgiliau Gymraeg staff. Bydd staff sydd eisoes wedi cofnodi lefel eu sgil Gymraeg yn y categorïau 'dim/sylfaenol iawn – gweddol – da – da iawn' yn cael eu hatgoffa i ddiweddarau eu cofnod yn unol â lefelau Gymraeg i oedolion yn 2018/19.</p>
<p><b>Hyfforddiant</b></p>	<p>Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i ddilyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2017-18 cyflwynodd 4 aelod o staff gais am hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol, a 6 aelod o staff am hyfforddiant Codi a Chario yn y Gymraeg.</p> <p>Mae staff yn cael eu cefnogi i ddefnyddio eu sgiliau Gymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Ar hyn o bryd gall staff ddewis o blith dros 100 o gyrsiau a gymeradwyir ym Mhrifysgol Caerdydd neu yn y gymuned, sy'n amrywio o ddysgwyr llwyr i siaradwyr rhugl ar adeg a lleoliad sy'n gyfleus iddyn nhw.</p> <p>Mae cyllideb gorfforaethol ar gael ar gyfer hyfforddiant Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff unigol Cyngor Caerdydd na'u cyfarwyddiaethau a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynyachu cyrsiau. Rhoddir blaenoriaeth i staff rheng flaen.</p> <p>Trwy gyfrwng y cynllun 'Cymraeg Gwaith', mae staff Cyngor wedi mynychu nifer o gyrsiau Gymraeg gan gynnwys cwrs 10 awr 'Croeso i'r Gymraeg', cwrs preswyl 5 diwrnod a chyrsiau dwys newydd. Caiff y cyrsiau hyn eu ariannu yn llawn gan Y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol.</p>



<p><b>Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer pob swydd wag.</b></p>	<p>Mae'r strategaeth sgiliau Cymraeg corfforaethol yn cynnig pecyn cymorth ymarferol (offeryn asesu gallu ieithyddol) er mwyn helpu rheolwyr i asesu gofynion Cymraeg eu tîm, fel y gellir hysbysebu rhai swyddi fel 'Cymraeg hanfodol' ac y gellir cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff presennol. Yn 2017/18 ymgorfforwyd yr offeryn asesu ieithyddol i DigiGOV fel un o elfennau gorfodol y broses recriwtio. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i gadw cofnodion canolog o bob asesiad ieithyddol a sicrhau y caiff yr asesiadau hyn eu cwblhau ar gyfer bob swydd a gaiff recriwtio yn unol â gofynion safon 136.</p> <p>Yr asesiad ieithyddol canlynol gaiff ei gwblhau gan reolwyr wrth lenwi swyddi</p> <p><b>Asesiad: Gofynion Sgiliau Cymraeg</b></p> <p><b>1. A yw'r swydd ar hyn o bryd wedi ei dynodi'n Cymraeg Hanfodol?</b>          YDY <input type="checkbox"/>          NAC YDY <input type="checkbox"/></p> <p><b>2. A yw dyletswyddau'r swydd hon yn cynnwys darparu gwasanaeth rheng flaen rheolaidd i'r cyhoedd neu sefydliadau allanol (wyneb yn wyneb neu ar y ffôn)?</b>          YDY <input type="checkbox"/>          NAC YDY <input type="checkbox"/> Nid yw sgiliau Cymraeg fel rheol yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.</p> <p><b>3. A all eich tîm gynnig gwasanaeth dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn ddi-feth ar hyn o bryd?</b>  <i>I sicrhau y cynigir gwasanaeth dwyieithog dylai o leiaf 2 aelod o staff neu 10% o staff mewn timau mwy (20+) fod â sgiliau Cymraeg ar lefel angenrheidiol er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swydd hon.</i>          YDY <input type="checkbox"/> Nid yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon fel rheol, ystyriwch a ddylai'r Gymraeg fod yn ofyniad dymunol.          NAC YDY <input type="checkbox"/> Rhaid i sgiliau Cymraeg gael eu cynnwys fel gofyniad hanfodol ar gyfer y swydd hon.</p> <p><b>4. Pa lefel o ran sgiliau Cymraeg fyddai ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd hon?</b>  <i>Noder y dylid dynodi swyddi mewn derbynfydd ar o leiaf Lefel 3 Canolradd er mwyn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg</i>  <input type="checkbox"/> 1-Mynediad    <input type="checkbox"/> 2-Sylfaen    <input type="checkbox"/> 3-Canolradd    <input type="checkbox"/> 4-Uwch    <input type="checkbox"/> 5-Hyfedredd</p>
<p><b>Ffurflenni Cais</b></p>	<p>Mae'r ffurflenni cais presennol yn cydymffurfio â gofynion y safonau. Mae pob llythyr sy'n cynnig cyfweiliad yn cynnwys adran i unigolion nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ar gyfer unrhyw ddull asesu arall. Bydd gwasanaeth cyfieithu Caerdydd Ddwieithog yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.</p>
<p><b>Arwyddion a arddangosir mewn gweithle corff</b></p>	<p>Mae pob arwydd newydd yn ddwyieithog, a'r Gymraeg yn dod yn gyntaf. Mae nodyn cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi yn ymwneud ag arwyddion a hysbysiadau er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion hyn.</p>
<p><b>Cyhoeddiadau a negeseuon sain mewn gweithle corff</b></p>	<p>Caiff y gofyniad ei gynnwys yng nghynllun gweithredu safonau'r Gymraeg, Gwasanaethau Pobl AD.</p>



# ATODIAD 1:

## Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog

Dim ond camau gweithredu'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2017-18 sydd wedi'u cynnwys isod.

Ar waith / Cam wedi'i gyflawni

Parhaus / Cam heb ei gyflawni'n llawn erbyn yr amserlen

Cam heb ei gyflawni

### TEULU, PLANT A PHOBL IFANC

BLAENORIAETHAU	CAM GWEITHREDU	TARGED / AMSERLEN	PARTNERIAID ARWEINIOL	DIWEDDARIAD
Hyrwyddo'r manteision o addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.	Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg drwy roi gwybodaeth i bob teulu yng Nghaerdydd ar wefan y Cyngor, yn y llyfryn derbyn i ysgolion ac mewn cylchlythyron perthnasol (e.e. Primary Times, Ein Caerdydd ac ati)	Adran benodol i'w chynnwys yn Llawlyfr Derbyn i Ysgolion 2018/19 ac ar wefan y Cyngor erbyn mis Hydref 2018 a bob blwyddyn wedi hynny.	Cyngor Dinas Caerdydd – Addysg a Dysgu Gydol Oes.	<p>Mae llawlyfr Derbyn i Ysgolion 2018-19 Cyngor Caerdydd (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017) yn cynnwys adran benodol ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r wybodaeth hyn yn cynnwys canllaw cwestiynau cyffredin i rieni, ac mae'r wybodaeth hon hefyd wedi'i rhoi ar dudalen ar wefan y Cyngor <a href="http://www.caerdydd.gov.uk/addysgcyfrwngcymraeg">www.caerdydd.gov.uk/addysgcyfrwngcymraeg</a></p> <p>Ymhellach i hyn, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn hyrwyddo gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn aml, sy'n trafod cwestiynau mwyaf cyffredin rhieni arfaethedig. Yn rhan o Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog, trefnwyd bod llyfryn wybodaeth Llywodraeth Cymru ar addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei rhannu â rhieni wrth gofrestru genedigaethau yng Nghaerdydd.</p>

	<p>Sefydliadau Caerdydd Ddwieithog i hyrwyddo a chefnogi Mudiad Meithrin i gyflwyno rhaglen 'Cymraeg i Blant' Llywodraeth Cymru ledled Caerdydd.</p>	<p>Dechrau Mawrth 2018</p>	<p>Mudiad Meithrin, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Ceir dolen i lyfryn addysg y Llywodraeth ar wefan Cyngor Caerdydd <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p>Mae cyflenwad o Ganllaw Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gael gan Cymraeg I Blant a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i rannu gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar ag iechyd.</p> <p>Mae Cymraeg I Blant yn noddi'r ffolder Mamolaeth dros Gymru gyfan, y cerdyn sgan a rennir i bob mam feichiog yn ystod y sgan 12 wythnos, yn ogystal â'r cofnod personol o ddatblygiad plentyn (cyfeirir ato fel y 'lyfryn coch'). Mae'r adnoddau uchod yn cyfeirio rhieni at adran Cymraeg I Blant ar wefan 'Cymraeg' Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi lawr lwytho'r Canllaw Addysg Gymraeg ar yr app Bounty a fe'i defnyddir i rannu gwybodaeth gyda rhieni newydd, ynghyd a thaflen Taith iaith ddwyeithog plentyn Cymraeg I Blant. <b>(CYNLLUN 'CYMRAEG I BLANT' - MUDIAD MEITHRIN)</b></p> <p>Mae'r Urdd yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith gydag aelodau 6ed dosbarth ysgolion Cymraeg y brifddinas. Nod y sesiynau yma yw dangos y fantais o ddwyeithrwydd wrth chwilio am waith wedi iddyn nhw orffen mewn addysg. <b>(URDD GOBAITH CYMRU)</b></p>
<p>Yn cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.</p>	<p>Datblygu a hyrwyddo calendr o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg ar gyfer teuluoedd er mwyn i blant a rhieni allu dysgu Cymraeg gyda'i gilydd.</p>	<p>O fis Medi 2017 a bob blwyddyn wedi hynny.</p>	<p>Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion), Prifysgol Caerdydd.</p>	<p>Mae'r Urdd wedi cynnal 4 clwb cymunedol penodol i blant ifanc a rhieni allu defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. <b>(URDD GOBAITH CYMRU)</b></p> <p>Gwnaeth Menter Caerdydd gydlynw rhaglen weithgareddau tymhorol i blant rhwng 0-4 a'u rhieni gan gynnwys Amser Stori ar y cyd â gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Caerdydd. Cynhelir y rhaglen o glybiau chwaraeon wythnosol (10 bob tymor) ar y cyd â Thîm Chwaraeon yr Urdd. Yn ogystal â chlybiau wythnosol, mae 6 digwyddiad unigol yn ystod y gwyliau i deuluoedd e.e. Wâc Welis, Miri Dolig. Uchafbwynt y flwyddyn yw'r penwythnos pan fydd teuluoedd Caerdydd yn Llangrannog, lle caiff y rhieni wersi Cymraeg am ddim. <b>(MENTER CAERDYDD)</b></p> <p>Drwy nawdd grant gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, bydd Prifysgol Caerdydd yn dechrau gweithio ar gynllun newydd sy'n benodol ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Roeddem yn bwriadu cynnig amserlen gwersi a gwersi anffurfiol llawn ac amrywiol mewn cymunedau lleol a thu hwnt. Bydd gennym diwtor/sefydliad fydd yn gyfrifol am hyrwyddo'r gwaith gan gynnwys amserlen fydd yn hygyrch i'r holl deulu. <b>(PRIFYSGOL CAERDYDD)</b></p>



				<p>Mae Cymraeg i blant wedi cychwyn rhedeg grwpiau cefnogi amrywiol (e.e. tylino babi, loga babi, Stori a Chân, i rieni a babanod dan flwydd oed yn yr ardaloedd canlynol ers mis Ebrill 2017: Sblot, Grangetown, Yr Eglwys Newydd, Rhiwbeina, Ystum Tâf, Treganna. Cynhaliwyd 241 o grwpiau a chyrrhaeddwyd 2384 o rieni yn y grwpiau rhwng mis Ebrill 2017 – mis Mawrth 2018. Yn ychwanegol cynhaliwyd digwyddiadau tymhorol awyr agored hefyd i rieni dros y flwyddyn. Mynychwyd sioe Babanod Caerdydd yn Neuadd y Ddinas i rannu gwybodaeth a darparu sesiynau blasu gyda darpar rieni.</p> <p><b>(CYMRAEG I BLANT - MUDIAD MEITHRIN)</b></p>
<p>Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiâu'r ysgol.</p>	<p>Cynllunio, cyd-drefnu a hysbysebu calendr cydlynol o weithgareddau Gofal, Chwarae a Hamdden i blant rhwng 4 a 11 oed a rhwng 11 a 18 oed..</p>	<p>O fis Medi 2017 a bob blwyddyn wedi hynny.</p>	<p>Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Gwasanaeth Ieuencid Cyngor Dinas Caerdydd</p>	<p>Mae gan yr Urdd dros 4700 o aelodau o ar draws Caerdydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Chwaraeon, diwylliannol, Eisteddfodau, penwythnosau preswyl yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd, gyda chalendar o weithgareddau yn cael eu dosbarthu i'r holl ysgolion ac ar gael ar wefan yr Urdd.</p> <p>Mae Swyddog Ieuencid yr Urdd yn gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd i gynnig cyfleoedd hamdden megis clybiau ieuencid, penwythnosau preswyl, projectau cyfranogi a Gwaith achrediad.</p> <p>Ceir 30 dwb gwahanol yn digwydd yn enw'r Urdd yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol.</p> <p>Amserlen o weithgareddau gwyliau yn cael ei chynnwys yn cynnwys chwaraeon, teithiau preswyl, teithiau rhyngwladol</p> <p>Rheolwr gwaith ieuencid yr Urdd yn Eistedd ar Bwyllgor Maes B. Swyddog ieuencid Caerdydd yn eistedd ar fforymau 6ed dosbarth yr ysgolion Uwchradd.</p> <p><b>(URDD GOBAITH CYMRU)</b></p> <p>Trwy gydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Caerdydd rydym wedi cynnal 50 gysiau wythnosol ee Clybiau Nofio, Drama a Phêl-rwyd. (Amcangyfrifir y byddwn yn cynnal 75 dwb hamdden y flwyddyn). Mae'r holl glybiau yn cael eu cynnal yn dymhorol.</p> <p>Rydym yn hysbysebu'r calendr o weithgareddau yn dymhorol drwy wefan a rhwydweithiau'r Fenter, yr ysgolion yn uniongyrchol a rhwydweithiau plant ac ieuencid Caerdydd.</p> <p>Mae 2 gynllun gofal gwyliau, sydd wedi'i gofrestru gyda'r CSSIW yn cael eu cynnal bob cyfnod gwyliau ysgol (ac eithrio'r Nadolig).</p> <p>Yn ogystal â'r cynlluniau gofal gwyliau rydym yn cynnal gwasanaeth chwarae agored cyfrwng Cymraeg mewn 8 safle x 7 gwaith y flwyddyn.</p>

				<p>Yn 2017-2018 rydym wedi trefnu calendr o 40 o weithdai hamdden a sgiliau gwyliau i blant 4-16 oed. Mae 15 o'r gweithdai o ganlyniad i bartneriaeth newydd gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i greu rhaglen o weithgareddau i bobl ifanc rhwng 8 ac 16 oed.</p> <p>Rydym mewn trafodaethau gyda staff Eisteddfod Genedlaethol Cymru i hyrwyddo gweithgareddau'r Eisteddfod yn y cyfnod sy'n arwain i fyny at yr Eisteddfod.</p> <p>Cynhaliwyd gig yn yr Ysgolion Cyfun i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. <b>(MENTER CAERDYDD)</b></p> <p><b>Partneriaethau newydd Coleg Caerdydd a'r Fro</b> Menter Caerdydd – Rhaglen newydd i ddarparu amrywiaeth o weithdai e.e. gwallt a harddwch, dawnys gydag arbenigwyr y coleg a myfyrwyr yn y meysydd penodol. Ffordd o ddatblygu sgiliau a hyder Cymraeg y Coleg a chodi ymwybyddiaeth plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu sgiliau newydd.</p> <p><b>Urdd chwaraeon</b> – Sesiynau a hyfforddiant i 8 myfyrwyr y coleg i alluogi swyddi hyfforddiant yn y gymuned a rhoi cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r sector addysg.</p> <p><b>Coleg Cymraeg Cenedlaethol</b> – Cydweithio i hybu'r Gymraeg trwy Addysg Bellach i Addysg Uwchradd gan ganolbwyntio ar y maes Iechyd a Gofal eleni. Cynhaliwyd cynhadledd ddwyieithog i staff a 50 myfyrwyr Iechyd a Gofal gydag amrywiaeth o siaradwyr gwadd a gweithdai yn sôn am bwysigrwydd dwyieithrwydd yn y maes.</p> <p><b>Cwm Taf</b> – ymweliad i'r ward Cymraeg gyda staff a myfyrwyr adran Iechyd a Gofal i gael gweld sut y maent yn delio a thrin cleifion yn Gymraeg.</p> <p><b>Eisteddfod</b> – 50 o fyfyrwyr gwallt a harddwch wedi cymryd rhan mewn cystadleuaeth Gwallt a Harddwch. Roedd hwn yn cynnwys plant Ysgol Glantaf a Bro Edern sy'n astudio gyda ni yn Gymraeg fel rhan o'u TGAU.</p> <p><b>Cwricwlwm Cymraeg/dwyieithog</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- 6 myfyrwraig yn astudio gofal plant lefel 2 yn Gymraeg.</li> <li>- 3 myfyrwraig yn astudio gofal plant lefel 3 yn ddwyieithog.</li> <li>- 8 myfyrwyr yn astudio Chwaraeon lefel 3 yn ddwyieithog.</li> <li>- 4 myfyrwyr yn astudio gwasanaethau cyhoeddus yn ddwyieithog.</li> <li>- 1190 yn astudio CBAC Iaith ar Waith mynediad 3 a lefel 1, ar draws 11 o ardaloedd dysgu. Mae'r cymhwyster yn darparu geiriau allweddol i'r ardaloedd dysgu penodol a sut i ddelio gyda chwsmeriaid yn y gweithle yn Gymraeg. Mae'r cymhwyster ar gyfer myfyrwyr Cymraeg rhugl a Chymraeg TGAU ail iaith.</li> </ul> <p><b>(COLEG CAERDYDD A'R FRO)</b></p>
--	--	--	--	---





	<p>Cynllunio a chyd-drefnu gweithgareddau gyda'r Hen Lyfrgell, ysgolion Cymraeg a rhan-ddeiliaid i gefnogi a hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd 2018.</p>	<p>O fis Medi 2017 i fis Awst 2018.</p>	<p>Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Yr Hen Lyfrgell, Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin</p>	<p>Mae'r Eisteddfod wedi cynnal nifer o sesiynau mewn ysgolion neu gynnig cyfle perfformio i ddisgyblion, ymysg rhain mae:</p> <p><b>Maes B :</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gig Maes B gyda Mellt, Cadno a bandiau o'r ysgol eisoes wedi trefnu yn Ysgol Plasmawr a Glantaf. Bu'n rhaid gohirio un yn Ysgol Bro Edern oherwydd yr eira ond mae bwriad ail drefnu ym mis Mehefin 2018.</li><li>• Brwydr y Bandiau – 2 fand o ysgolion Caerdydd drwy i rownd derfynol Brwydr y Bandiau. Bydd y bandiau yma nawr yn cael ei mentora gan staff Maes B a Radio Cymru.</li><li>• Eisteddfod a Chlwb Ifor Bach yn cydweithio ar brosiect i hyrwyddo cerddoriaeth Cymraeg ymysg merched. Bwriad targedu disgyblion yr ysgolion fel rhan o'r prosiect yma.</li></ul> <p><b>Eisteddfod:</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Côr Cyngerdd 'Hwn yw fy Mrawd' - wedi sefydlu côr o bobl ifanc ar draws y ddinas i berfformio yn y gyngerdd yma gyda Bryn Terfel. Anfonwyd gwahoddiad i bob ysgol yn y ddinas.</li><li>• Côr o blant o Ysgol Kitchener hefyd wedi eu gwahodd i berfformio yn y gyngerdd.</li><li>• Côr o blant o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd wedi eu gwahodd i berfformio mewn 2 seremoni yn ystod wythnos yr Eisteddfod.</li><li>• 32 o blant o ysgolion y ddinas yn cael y cyfle i berfformio yn y ddawns flodau o flaen cynulleidfa o 1,800 yn y pafiliwn a darllediad teledu byw.</li><li>• Into Film wedi cynnal gweithdy mewn 2 ysgol yn y ddinas – Ysgol Plasmawr ac Ysgol Uwchradd Caerdydd. Premier yn Chapter Mis Mai a dangosiad hefyd yn yr Eisteddfod fel rhan o arlwy 'Sinemaes'.</li><li>• Trefnu gorymdaith a Jambori ar y Maes gyda gwahoddiad wedi danfon at blant holl gylchoedd meithrin Caerdydd.</li></ul> <p><b>Shwmae Caerdydd (Dysgwyr):</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Rownd cyn derfynol cyst. Dysgwyr y flwyddyn yn cael ei gynnal yn yr Hen Lyfrgell gyda diwrnod llawn o weithgareddau i deuluoedd y 25 ymgeisydd.</li><li>• Gweithdy prosiect RAS yn cael ei gynnal mewn 4 ysgol - 2 ysgol cyfrwng Cymraeg a 2 Saesneg</li><li>• iii. Myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael y cyfle i gynllunio'r prif dlysau cystadlaethau dysgwyr eleni.</li></ul> <p><b>(EISTEDDFOD)</b></p> <p>Rydym yn cydweithio â'r Eisteddfod i sicrhau llwyddiant gorymdaith a jambori ar gyfer plant Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi Caerdydd.</p> <p><b>(MUDIAD MEITHRIN)</b></p> <p>Cynhelir tri Chwrs Blasu yn yr Hen Lyfrgell er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd dau ohonynt ym mis Mehefin 2018 ac wedyn y llall ym mis Gorffennaf fel bod modd ei hyrwyddo yn ystod Tafwyl.</p> <p><b>(PRIFYSGOL CAERDYDD)</b></p>
--	--	---	---	--

	<p>Defnyddio'r Diwrnod Cerddoriaeth Gymraeg fel ffordd o ddenu pobl ifanc i gymryd rhan yn gymdeithasol ac fel artistiaid yn y Sin Gerddoriaeth Gymraeg</p>	<p>Chwefror 2018</p>	<p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Trefnwyd digwyddiadau ar draws Caerdydd a Chymru i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Gellir gweld holl restr o ddigwyddiadau 2018 ar y wefan <a href="http://cymraeg.llyw.cymru/DyddMiwsigCymru/Cynnwys/Digwyddiadau/?lang=cy">http://cymraeg.llyw.cymru/DyddMiwsigCymru/Cynnwys/Digwyddiadau/?lang=cy</a> <b>(LLYWODRAETH CYMRU)</b></p> <p>Gwnaeth y Cyngor ddathlu Dydd Miwsig Cymru drwy hyrwyddo llawer o ddigwyddiadau miwsig lleol ar ein cyfryngau cymdeithasol, ochr yn ochr â dynodi Caerdydd yn 'Ddinas Gerdd' gyntaf yn y DU. Cyhoeddwyd cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys Prentis Corfforaethol Cyngor Caerdydd ynghyd â detholiad o gerddoriaeth Gymraeg. Roedd llinell ffonau Cysylltu â Chaerdydd hefyd yn chwarae detholiad o ganeuon Gymraeg fel cerddoriaeth aros gydol yr wythnos. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p>Maes B : Cynhaliwyd gig gyda Melit a band lleol Subs yn Ysgol Plasmawr. <b>(EISTEDDFOD)</b></p> <p>Rhannwyd pecynnau gwybodaeth gyda rhieni am grwpiau cefnogi Gymraeg i blant, Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a'r Ysgolion Gymraeg. <b>(CYNLLUN 'CYMRAEG I BLANT' – MUDIAD MEITHRIN)</b></p>
<p>Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg ymwneud yn gadarnhaol â'r iaith Gymraeg.</p>	<p>Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cyfleoedd gefeillio rhwng ysgolion Gymraeg a Saesneg i weithio ynghyd ar brojectau penodol</p>	<p>Ionawr 2018</p>	<p>Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De, Ysgolion Gymraeg, Ysgolion Saesneg</p>	<p>Adnabuwyd cyfleoedd cyfeillio, ac mae'r ysgolion cyfrwng Gymraeg hyn yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg: Ysgol Pen-y-Groes / Bryn Celyn Ysgol Pwll Coch / Mount Stuart Ysgol Melin Gruffydd / Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd Ysgol Glan Ceubal / Gabalfa Ysgol Glan Morfa / Adamsdown Ysgol Pencae / Ysgolion yn yr ardal leol</p>
	<p>Cynnal astudiaeth ymarferoldeb i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu clybiau ar ôl ysgol ddwyieithog a gofal plant dwyieithog yn ystod y gwyliau i blant sy'n mynychu ysgolion Saesneg, ac ymateb i'r galw.</p>	<p>Cwblhau'r astudiaeth ymarferoldeb erbyn mis Rhagfyr 2017.</p>	<p>Pob ysgol Saesneg, Menter Caerdydd, Urdd Gobaith Cymru.</p>	<p>Trafodwyd dichonolrwydd cynnig clybiau ar ôl ysgol a gofal plant dwyieithog dros y gwyliau ysgol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn Fforwm Caerdydd Ddwieithog ym mis Chwefror 2018.</p> <p>Yn y gorffennol, mae Menter Caerdydd wedi cynnal digwyddiadau gydag ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn affodus, nid yw'r gweithgareddau dwyieithog wedi bod mor llwyddiannus â'r disgwyl, ac felly roedd iaith y gweithgareddau yn aml yn troi i'r Saesneg. Mae Menter Caerdydd wedi cael gwahoddiadau i siarad â disgyblion ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i drafod y manteision o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle. <b>(MENTER CAERDYDD)</b></p> <p>Cafwyd trafodaethau yn ystod y gynhadledd "Cymraeg Pob Dydd". Roedd y mynychwr yn dangos diddordeb mewn cynnig gweithgareddau dwyieithog i roi cyfle iddynt wella eu sgiliau ieithyddol.</p>

				<p>Mae'r Urdd yn darparu 3 clwb Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg a 6 clwb mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Urdd yn darparu cyfleoedd i ysgolion cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r mudiad sy'n cynnwys cystadlaethau chwaraeon a thripiâu i wersylloedd yr Urdd.</p> <p>Mae gwobr flynyddol Eryl Walsh yn cael ei gyflwyno i'r disgybl yn CA3 sy'n dangos y fwyaf o frwdfrydedd tuag at yr iaith. <b>(URDD GOBATH CYMRU)</b></p>
	Asesu'r posibilrwydd o gynnal Eisteddfod Ddwieithog Caerdydd i ysgolion Cymraeg a Saesneg Caerdydd cyn Eisteddfod Genedlaethol 2018.	Cwblhau'r astudiaeth ymarferoldeb erbyn Medi 2017.	Cyngor Dinas Caerdydd, Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De, Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru	<p>Yng nghyfarfod y Fforwm ar 22 Medi 2017, cafwyd trafodaethau pellach ar y posibilrwydd o gynnal Eisteddfod ddwyieithog ond am nifer o resymau ymarferol, roedd y partneriaid o'r farn na ddylid cynnal Eisteddfod arall. Roedd y partneriaid yn cytuno bod angen ymgysylltu'n fwy effeithiol ag ysgolion Saesneg cyn Eisteddfod Genedlaethol 2018, ac i godi ymwybyddiaeth o'r cystadlaethau nad oeddent yn dibynnu ar iaith e.e. celf a chrefft, offerynnau, dawnsio ac ati.</p> <p>Amcan - yr Eisteddfod i godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ag ysgolion Saesneg yn y sir gyda'r bwriad o gynyddu nifer y plant a phobl ifanc o ysgolion Saesneg sy'n cystadlu.</p> <p>Côr o blant o Ysgol Kitchener wedi eu gwahodd i berfformio yng nghyngerdd 'Hwn yw fy Mrawd'.</p> <p>Ysgol Uwchradd Caerdydd wedi bod yn rhan o brosiect ffilm Sinemaes/Into Film</p> <p>Gwybodaeth am gystadleuaeth y dysgwyr wedi danfon at holl ysgolion Saesneg Caerdydd. <b>(EISTEDDFOD)</b></p>

## Y GYMUNED A SEILWAITH

BLAENORIAETHAU	CAM GWEITHREDU	TARGED / AMSERLEN	PARTNERIAID ARWEINIOL	DIWEDDARIAD
Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwieithog'.	Annog busnesau preifat sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg i ddangos neu arddangos y brand Caerdydd Ddwieithog yn eu siopau neu fusnesau.	<p>Deunyddiau wedi'u cynhyrchu erbyn Ebrill 2017.</p> <p>Ymgrych codi ymwybyddiaeth o fis Medi 2017.</p>	Tim Caerdydd Ddwieithog Cyngor Dinas Caerdydd, Menter Caerdydd, Yr Hen Lyfrgell	<p>Cafodd y deunydd arddangos 'Caerdydd Ddwieithog' eu cynhyrchu erbyn Ebrill 2017.</p> <p>Yn 2018 hyd yma, mae Caerdydd Ddwieithog wedi bod yn gweithio ar y cyd â Menter Caerdydd a swyddogion lleol ar y project 'Prosiect Byd Busnes'. Ariennir y Prosiect Byd Busnes gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei chynnal gan Fentrau Iaith Cymru. Mae 10 swyddog yn gweithio ledled</p>



		<p>Busnesau a sefydliadau perthnasol i ddefnyddio'r logo Caerdydd Ddwieithog o fis Ebrill 2018</p>		<p>Cymru i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnig gwasanaeth penodol am ddim i fodloni anghenion busnesau, yn rhoi cyngor a chynnig syniadau ymarferol, ac i gyfeirio at gymorth arall sydd ar gael. Mae deunyddiau arddangos 'Caerdydd Ddwieithog' hefyd wedi'u rhannu drwy'r swyddog byd busnes Cymraeg lleol; ac mae Menter Caerdydd, Caerdydd Ddwieithog, y Comisiynydd Iaith, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac FSB Cymru wedi bod yn gweithio'n agos i adeiladu perthnasau positif gyda busnesau Caerdydd, ac yn parhau yn 2018/19 wrth i Gaerdydd groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2018. <a href="http://cymraeg.llyw.cymru/business/?lang=en">http://cymraeg.llyw.cymru/business/?lang=en</a> <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p>Wedi meithrin perthynas da gyda busnesau a phartneriaid Bae Caerdydd yn cynnwys y 'Waterfront partnership, Mermaid Quay a Red Dragon Centre' gyda'r bwriad o'u hannog i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Yn cydweithio gyda 'Mermaid Quay' i ddefnyddio perfformwyr Cymraeg yn ogystal â chreu cyswllt rhyngddynt a'r swyddog Byd Busnes/Mentrau iaith Cymru.</p> <p>Bwriad i ymweld â busnesau'r ardal a Pontcanna (lleoliad y maes carafanau) cyn yr Eisteddfod i godi ymwybyddiaeth a chynorthwyo nhw i wneud defnydd o'r Gymraeg a chynnig croeso i'r ymwelwyr.</p> <p>Trefnu sesiynau gyda'r busnesau er mwyn sicrhau bod nhw yn cael y cyfle i fanteisio o ymweliad yr Eisteddfod i'r ardal. <b>(EISTEDDFOD)</b></p>
<p>Deunyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad mawr, proffil uchel a gynhelir yng Nghaerdydd, cefnogi digwyddiadau cymunedol Cymraeg sydd eisoes yn bodoli a rhannu arfer da.</p>	<p>Annog a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid digwyddiadau mawr i arddangos Caerdydd fel dinas ddwyieithog sy'n ffynnu.</p>	<p>O Ebrill 2017</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd - Digwyddiadau, Twristiaeth a Caerdydd Ddwieithog, Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Pan fydd Cyngor Caerdydd yn arwain neu ynghlwm wrth drefnu digwyddiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl arwyddion a'r deunydd arddangos yn ddwyieithog. Bydd tîm Caerdydd Ddwieithog yn dal i weithio gyda gwasanaethau i ymchwilio i'r ffordd orau i annog a dylanwadu digwyddiadau annibynnol i ddefnyddio arwyddion dwyieithog. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p>
	<p>Casglu gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau Cymraeg a'r holl bartneriaid i hyrwyddo gwefan 'Gymraeg' Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Holl bartneriaid Caerdydd Ddwieithog i roi gwybodaeth am eu digwyddiadau Cymraeg i Lywodraeth Cymru o fis Medi 2017 ymlaen.</p>	<p>Llywodraeth Cymru, holl bartneriaid Caerdydd Ddwieithog</p>	<p>Gan fod dinasyddion yn tueddu defnyddio gwefannau'r Mentrau Iaith a chyfryngau cymdeithasol er mwyn cael gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg; yn dilyn trafodaeth yn fforwm Caerdydd Ddwieithog penderfynwyd y byddai gwefan newydd Menter Caerdydd yn cwrdd â'r amcan yma (weler diweddariad ar dudalen 24). Pan fyddwn yn adolygu amcanion y strategaeth hon, byddwn yn newid yr amcan yma i un sy'n hyrwyddo gwefan newydd Menter Caerdydd. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p>

<p>Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy yn y ddinas i adlewyrchu 'Caerdydd Ddwieithog' trwy fecanweithiau cynllunio sydd eisoes yn bodoli.</p>	<p>Ymchwilio, a lle y bo'n briodol, nodi dulliau cynllunio i sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr fel siopau cadwyn, archfarchnadoedd a manwerthwyr yn ystyried yr angen i godi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog.</p>	<p>Canllaw Blaen Siop ac Arwyddion a Chanllaw Cynllunio Atodol i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2017. Yn weithredol o Ionawr 2018.</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd – Cynllunio</p>	<p>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â'r Canllaw Arwyddion ac Wynebaw Siopau wrthi'n cael ei baratoi a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn haf 2018 gyda'r bwriad o geisio cymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor yng ngaeaf 2018/2019. Bydd gwaith i baratoi'r CCA yn cynnwys ymchwil ar arfer gorau sy'n ymwneud â darparu arwyddion dwyieithog ac ymgysylltu cynnar â thîm Caerdydd Ddwieithog.</p> <p>Bydd Swyddogion Achos Cynllunio yn rhoi gwybod i ddatblygwyr am ddisgwyliadau'r Cyngor o ran arwyddion dwyieithog wrth ystyried ceisiadau cynllunio perthnasol.</p>
	<p>Ymchwilio, a lle y bo'n briodol, nodi dulliau cynllunio i sicrhau bod ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai newydd yn ystyried yr angen i ddefnyddio enwau dwyieithog a chodi arwyddion a hysbysiadau dwyieithog.</p>	<p>Canllaw Blaen Siop ac Arwyddion a Chanllaw Cynllunio Atodol i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2017. Yn weithredol o Ionawr 2018.</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd – Cynllunio</p>	
	<p>Cyngor Dinas Caerdydd i fabwysiadu'r egwyddor fod y Gymraeg yn dod gyntaf ar unrhyw ddeunydd y mae'r Cyngor yn ei gynhyrchu.</p>	<p>O fis Medi 2017</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd</p>	<p>Mae Tîm Dylunio'r Cyngor, sy'n gyfrifol am farchnata a chyfathrebu'r Cyngor, wedi sicrhau eu bod nhw'n rhoi'r Gymraeg yn gyntaf ar unrhyw ddeunydd arddangos sydd wedi'i gyhoeddi ers Medi 2017. Ymhellach i hyn, mae'r ymrwymiad wedi'i rannu â phob aelod staff y Cyngor drwy'r Briff Craidd a'r cylchlythyr Materion Cymraeg.</p>
<p>Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a chymunedau sy'n dod i'r amlwg fel ffordd o gyfleu diwylliant Cymreig, a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg.</p>	<p>Cydgysylltu â'r trydydd sector i ddatblygu dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer cymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ffoaduriaid ac ymfudwyr, i nodi cyfleoedd pellach i gymunedau newydd yn y ddinas ddysgu Cymraeg</p>	<p>Nifer o ddosbarthiadau blasu Cymraeg ar gael erbyn Ionawr 2018</p>	<p>Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion) Prifysgol Caerdydd, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Ffoaduriaid Cymru</p>	<p>O dan nawdd grant gan y Ganolfan Genedlaethol rydym wedi apwyntio tiwtor/drefnydd i weithio'n benodol gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Byddwn yn cynnig cyrsiau iaith a digwyddiadau anffurfiol i gynorthwyo cymathu. Bydd y cyrsiau a'r digwyddiadau hyn yn agored i deuluoedd ac i unigolion ac yn hyblyg o ran natur gan ymateb yn gadarnhaol i anghenion y cymunedau newydd a geir ar draws y ddinas.</p> <p><b>(PRIFYSGOL CAERDYDD)</b></p> <p>Cydweithio gyda phartneriaid newydd fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Stonewall er mwyn rhoi cyfle iddynt fod yn rhan o'r Eisteddfod ac i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Ar y cyd gyda Llenyddiaeth Cymru rydym wedi comisiynu beirdd i weithio gyda ffoaduriaid i greu cerddi i'w darllen fel rhan o arlwy'r Babell Len yn yr Eisteddfod. Dyma enghraifft o waith codi ymwybyddiaeth sydd wedi digwydd yn 2017-18:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Presenoldeb/standin yng ngwyliau Grangetown (Marchnad y Byd, Gŵyl y Grange ayyb) wedi bod yn ffenest siop wych i'r 'Steddfod yn yr ardal lle bydd hi'n cael ei chynnal fis Awst. Cyfle i'r pwyllgor drafod y Briffwyl 'efo trigolion, rhannu gwybodaeth ac ati. <b>(EISTEDDFOD)</b></li> </ul>

Cefnogi'r Hen Lyfrgell, Canolfan Gymraeg Caerdydd, i gynyddu gweithgareddau sy'n estyn allan a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth Gymraeg helaeth Caerdydd..	Cynnig cyrsiau blasu Gymraeg byr i holl ymwelwyr YHL yn ystod Ffeinal Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017 i hyrwyddo'r iaith mewn goleuni cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth yn rhyngwladol ein bod ni'n ddinas ddwyieithog.	Mehefin 2017	Ysgol y Gymraeg (Cymraeg i Oedolion), Y Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Bêl-droed Cymru	Cafodd dilynwyr pêl-droed oedd yng Nghaerdydd yn ystod ffeinal Cynghrair y Pencampwyr UEFA ym mis Mai 2017 gyfle i roi cynnig ar siarad Gymraeg. Gwnaeth Prifysgol Caerdydd (Cymraeg i Oedolion) ar y cyd â'r Hen Lyfrgell drefnu digwyddiad gydol y penwythnos ar yr Aes lle cafodd cefnogwyr o'r Eidal, Sbaen a gweddill y byd gyfle i roi cynnig ar y Gymraeg. Cafodd y cynllun rhyngweithiol a chyffrous adborth positif ar gyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg, gan helpu i ddangos Caerdydd yn ddinas fodern a dwyieithog yn rhyngwladol. <a href="http://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-40144712/champions-league-final-fans-learning-welsh-in-cardiff">http://www.bbc.co.uk/news/av/uk-wales-40144712/champions-league-final-fans-learning-welsh-in-cardiff</a>
---	---	--------------	---	--

## GWASANAETHAU CYMRAEG A'R GWEITHLE

BLAENORIAETHAU	CAM GWEITHREDU	TARGED / AMSERLEN	PARTNERIAID ARWEINIOL	DIWEDDARIAD
Cynyddu nifer/canran y siaradwyr Cymraeg o fewn Cyngor Dinas Caerdydd a galluogi a physgu â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, i annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwieithog i ddefnyddio'r un dull.	Cynyddu nifer y staff dwyieithog yng Nghyngor Dinas Caerdydd i adlewyrchu'r ganran o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwieithog i fabwysiadu'r un dull.	Erbyn 2022, cynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r Cyngor gan 50%.  Rhannu arfer da gyda sefydliadau cyhoeddus eraill erbyn Ebrill 2022.	Cyngor Dinas Caerdydd, Coleg Gymraeg Cenedlaethol, Prifysgol De Cymru, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Colegau Cymru, Asiantaethau Recriwtio	Fel sefydliad, mae'r Cyngor yn annog staff i ddiweddarau eu sgiliau Cymraeg ar ein system Adnoddau Dynol, DigiGov. Ers mis Hydref 2017, gall DigiGov gofnodi lefel Cymraeg staff (mynediad-hyfedredd) yn unol â'r Fframwaith Cymraeg i Oedolion, ar gyfer pob aelod staff yn unol â'r fframwaith Cymraeg i Oedolion. Rydym yn adrodd ar nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y sefydliad bob blwyddyn. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b>
	Drwy'r fforwm Caerdydd Ddwieithog, gweithio gyda sefydliadau partner Caerdydd Ddwieithog i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.	O Ionawr 2018	Cyngor Dinas Caerdydd, holl sefydliadau Caerdydd Ddwieithog	Mae polisi ar hyrwyddo'r Gymraeg yn y Cyngor, sy'n cynnwys canllawiau ar gyrsiau Cymraeg a chynllun mentora newydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet er cymeradwyaeth ym mis Mehefin 2018. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys datganiad cenhadaeth o'n bwriad i greu Cyngor hollol ddwyieithog.  Gall tîm Caerdydd Ddwieithog helpu ein partneriaid i greu polisi mewnol tebyg a/neu i roi cyngor ar agweddau penodol ar y polisi neu ganllawiau. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b>
Annog sefydliadau partner Caerdydd Ddwieithog i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl Uwch Reolwyr a staff.	Sicrhau bod staff Cyngor Caerdydd a rheolwyr yn mynychu cyrsiau ymwybyddiaeth iaith ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwieithog i fabwysiadu'r un dull	Adrodd yn flynyddol ar nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant.	Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	Yn 2017-18, gwnaeth 259 aelod staff gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, ac o'r rheiny: <ul style="list-style-type: none"> <li>➢ Gwnaeth 50 o Reolwyr Gweithredol fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith drwy'r Cynllun 'Cymraeg Gwaith'.</li> <li>➢ Gwnaeth 25 aelod staff o'r gwasanaethau Plant ac Oedolion fynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a ddarperir gan y cydlynnydd iaith ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae 38 o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gan y cydlynnydd.</li> </ul>

				<p>➤ Mae 184 aelod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ymwybyddiaeth iaith Gorfforaethol.</p> <p>Mae 1,994 o aelodau staff wedi cwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth iaith ers ei lansiad ym mis Medi 2015. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p>
	<p>Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu cyrsiau dysgu a gwella'r Gymraeg i'r holl staff sy'n delio â'r cyhoedd ac annog sefydliadau cyhoeddus eraill Caerdydd Ddwyeithog i fabwysiadu'r un dull.</p>	<p>Adrodd yn flynyddol ar nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant.</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd</p>	<p>Mae hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg a ariennir yn gorfforaethol ar gael i bob aelod o staff Cyngor Caerdydd. Mae gwybodaeth ar gael ar faint o staff sydd wedi mynychu'r hyfforddiant yma yn adroddiad blynyddol ar y Safonau.</p> <p>Yn 2017-18, gwnaeth 175 o aelodau staff fynychu cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, o'r rheiny:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ Gwnaeth 71 aelod staff fynychu cwrs blasu 2 ddiwrnod iaith Cymraeg mewnol ym mis Gorffennaf.</li> <li>➤ Gwnaeth 19 aelod staff gwblhau cwrs ar-lein 10 awr 'Croeso Cymraeg'.</li> <li>➤ Gwnaeth 72 aelod staff fynychu cyrsiau Cymraeg drwy Brifysgol Caerdydd.</li> <li>➤ Gwnaeth 8 aelod staff fynychu cyrsiau 5-diwrnod drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.</li> <li>➤ Gwnaeth 5 aelod staff fynychu hyfforddiant Cymraeg dwys drwy'r cynllun 'Cymraeg Gwaith'.</li> </ul> <p><b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p><b>Cymraeg Gwaith</b> Mae 20 o ddarlithwyr ar draws sawl ardal dysgu mynychu ar y cynllun peilot i ddysgu Cymraeg neu i godi hyder i addysgu trwy'r iaith Cymraeg.</p> <p><b>Sgiliaith</b> 40 rheolwyr y coleg wedi cael sesiwn ymwybyddiaeth iaith yn AB ac yn y gweithle. 8 darlithwyr Cymraeg rhugl wedi cwblhau cwrs methodoleg. 30 staff di-gymraeg wedi cwblhau sesiwn ymwybyddiaeth iaith yn Addysg Bellach. <b>(COLEG CAERDYDD A'R FRO)</b></p>
<p>Gweithrediad y safonau iaith gan sefydliadau Caerdydd Ddwyeithog perthnasol yn arwain at gynyddu argaeledd a'r defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg</p>	<p>Gweithredu'r safonau iaith a chynorthwyo sefydliadau Caerdydd Ddwyeithog eraill i gyflawni'r un peth.</p>	<p>O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol berthnasol.</p>	<p>Holl bartneriaid Caerdydd Ddwyeithog.</p>	<p>Mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu'r safonau ac yn barod i roi cyngor i sefydliadau eraill. Rydym yn rhan o'r 'Grŵp Deddf', sef rhwydwaith o Swyddogion Iaith, ac sy'n aml yn rhoi cyngor mewn cyfarfodydd a dros e-bost. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf mae tîm Caerdydd Ddwyeithog wedi rhoi cyngor i sawl sefydliad sy'n dod o dan y safonau, neu sydd ar fin dod o dan y safonau ar agweddau amrywiol ar y ddeddf. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b></p>
				<p>Mae Menter Caerdydd ar fin lansio gwefan newydd a fydd yn cynnwys cyfeirlyfr digidol i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn y ddinas.</p>

	Paratoi Cyfeirlyfr Caerdydd Ddwieithog yn amlinellu'r holl wasanaethau cyhoeddus Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd a hyrwyddo i gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.	Paratoi cyfeirlyfr erbyn Mawrth 2018	Menter Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Yn ogystal â hyrwyddo'r holl wasanaethau cyhoeddus Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd bydd y gwasanaeth yn cynnwys unigolion, mudiadau, busnesau a chwmnïau lleol sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg i gwsmeriaid. Mae 282 o gysylltiadau yn y cyfeirlyfr ar hyn o bryd ac rydym yn anelu i gyrraedd 300 erbyn mis Medi 2018. <b>(MENTER CAERDYDD)</b>
Dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithredu a dogfennau comisiynu a chontractau 3ydd parti a sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys o'r cychwyn.	Annog holl bartneriaid cyhoeddus Caerdydd Ddwieithog i sicrhau bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn rhan allweddol o ddatblygu polisiâu ac o fewn asesiadau effaith.	O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol berthnasol.	Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwieithog.	Yn 2017-18, mae canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor i roi cyngor i drydydd partiion wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth gynnig Gwasanaethau Cyngor Caerdydd.  Mae rhestr wirio newydd ar gyfer staff caffael wedi'i datblygu, i sicrhau bod contractwyr ac aelodau staff yn ymwybodol o'r gofynion iaith berthnasol. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b>
	Paratoi canllawiau ar ofynion yr iaith Gymraeg i'r holl gontractwyr 3ydd parti sy'n gweithio o fewn y sector cyhoeddus.	Medi 2017	Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwieithog.	
	Cynnwys capasiti dwieithog mewn datrysiadau TG newydd sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys rhyngwynebau sy'n cynnig dewis iaith.	O'r dyddiadau cydymffurfiaeth statudol perthnasol.	Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, holl bartneriaid Caerdydd Ddwieithog.	Mae holl ddatrysiadau cyhoeddus TG yn ddwieithog, er enghraifft app Next Bike (2017-18) and rydym yn datblygu ap dinasyddion gwbl ddwieithog ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i rannu arfer da. <b>(CYNGOR CAERDYDD)</b>  <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Grant Cymraeg 2050</b> Gyda'r cyllid rydym wedi creu 'Gwobr Iaith'. System i sganio cod QR wrth ofyn am rywbeth yn y Gymraeg mewn sawl ardal ar draws y coleg fel canolfannau llwyddiant, siop coffi, derbynfeydd. Mae system pwyntiau yn cyfri pwyntiau i bawb gyda gwobr tocynnau ar gyfer y person gyda phwyntiau mwyaf.</li> <li><b>Prosiect digidol Llywodraeth Cymru a Cholegau Cymru</b> Sawl Coleg wedi cydweithio i greu apiau i gefnogi AB. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro a Choleg Gwent wedi creu ap twristiaeth. Mae'r ap wedi teilwra i gefnogi pob cyrff dyfarnu a phob lefel o ddysgwyr. Mae'r ap yn cynnwys adnoddau ddysgu gydag adran i ddysgu geiriau allweddol wrth ddarllen a gwrando.</li> </ul> <p>Dyma'r apiau eraill - Busnes, Ceir ac addysgu yn ddwieithog. <b>(COLEG CAERDYDD A'R FRO)</b></p>



<p>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg.</p>	<p>Sicrhau bod Cynnig Actif o wasanaethau Cymraeg yn cael ei rannu â holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ac o fewn gwasanaethau a gomisiynir.</p>	<p>Mawrth 2018</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Mae cwestiynau yn system gofnodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol i annog staff i wneud cynnig rhagweithiol (er bod hyn angen ei fireinio ymhellach) ac ymwybyddiaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• am yr angen i wneud cynnig rhagweithiol,</li><li>• am fanyleb y cynnig fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg,</li><li>• bod cyfleoedd i staff ddysgu neu wella eu Cymraeg</li></ul> <p>yn parhau i gael eu hyrwyddo drwy rannu Briff Materion y Gymraeg i bob aelod staff Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth yn elfen orfodol ar hyfforddiant cynefino ar ofal cymdeithasol ac mae'n rhan o'r rhaglen ymgynefino lleoliadau gwaith cymdeithasol ac yn elfen hanfodol ar y rhaglen hyfforddiant Tair Blynedd Gyntaf Ymarferol. Gwnaeth Caerdydd Ddwieithog gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y Gymraeg yn benodol i bob Rheolwr Gweithredol yng Nghyngor Caerdydd yn ystod 2017/18, ac mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth ar y Gymraeg ar gael yn gyson i bob aelod o staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p>Ar hyn o bryd, rydym yn dechrau sefydlu Mwy na Geiriau, Fforwm Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro gan gwmpasu gofal cymdeithasol ac iechyd i fwrw ymlaen â champau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau a Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau.</p> <p>Mae Caerdydd Ddwieithog wedi cynhyrchu dogfen ganllaw i drydydd partïon. Mae angen gwaith pellach i adnabod sut i rannu hyn ymhlith y nifer o wasanaethau a gomisiynir neu a brynir yn y fan a'r lle gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p> <p><b>(GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p>Yn 2017-18, mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi</p> <ol style="list-style-type: none"><li>1. Gweithio gyda'r darparwyr gofal sylfaenol Cymraeg:</li></ol> <p>Mae PCIC wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau a gomisiynir yn lleol (megis meddygon teulu) i'w hannog nhw i ystyried gwasanaethau Cymraeg a defnyddio'r ystod o sgiliau Cymraeg yn eu practis er budd eu cleifion; defnyddwyr gwasanaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"><li>2. Annog staff i wisgo bathodynnew siaradwyr Cymraeg 'iaith gwaith' i annog eu cleifion/defnyddwyr gwasanaeth i siarad â nhw'n Gymraeg.</li><li>3. Sefydlu'r Fforwm Mwy na Geiriau gyda Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i wella cydweithrediad a chydlynad i sicrhau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig drwy gyfrwng y Gymraeg.</li></ol>
---	--	--------------------	---	---

				<p>4. Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i staff ar y pwysigrwydd o gynrig y Gymraeg i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a pha gamau gallant eu cymryd ar lefel ymarferol.</p> <p>5. Cynrig dewis o lythyrau apwyntiad yn y Gymraeg neu Saesneg. <b>(BWRDD IECHYD CAERDYDD A'R FRO)</b></p>
	<p>Cynnwys gwasanaeth Cymraeg o fewn manylion contract, cytundebau lefel gwasanaeth a phrosesau cyllid grant trydydd sector ac annibynnol lle bo angen.</p>	<p>Mawrth 2018</p>	<p>Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Yn 2017-18, mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi gweithio gyda'r darparwyr gofal sylfaenol Cymraeg:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae PCIC wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau a gomisiynir yn lleol (megis meddygon teulu) i'w hannog nhw i ystyried gwasanaethau Cymraeg a defnyddio'r ystod o sgiliau Cymraeg yn eu practis er budd eu deifion; defnyddwyr gwasanaeth.</li> <li>2. Annog staff i wisgo bathodynau siaradwyr Cymraeg 'iaith gwaith' i annog eu deifion/defnyddwyr gwasanaeth i siarad â nhw'n Gymraeg.</li> <li>3. Sefydlu'r Fforwm Mwy na Geiriau gyda Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i wella cydweithrediad a chydlynid i sicrhau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>4. Cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i staff ar y pwysigrwydd o gynrig y Gymraeg i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth a pha gamau allen nhw eu cymryd ar lefel ymarferol.</li> <li>5. Cynrig dewis o lythyrau apwyntiad yn y Gymraeg neu Saesneg. <b>(BWRDD IECHYD CAERDYDD A'R FRO)</b></li> </ol> <p>Mae cymalau safonol ar y Gymraeg yn bresennol yn nhelerau ac amodau pob un o wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd.</p> <p>Cafodd gwasanaethau penodol ar gyfer teuluoedd sy'n siarad Cymraeg (e.e. Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd) eu comisiynu'n rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gwreiddiol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen o wasanaethau cymorth cynnar sy'n hyrwyddo mwy o weithio aml-asantiaeth a chefnogaeth gydlynol i deuluoedd nad ydynt yn cyrraedd trothwyon gwasanaethau statudol neu arbenigol.</p> <p>Daeth y contract mewn perthynas â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2018, ac mae bellach wedi'i disodli gan ddull sy'n golygu bod rhaid i bob gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf fodloni Safonau'r Gymraeg er mwyn dilyn y rhaglen. Mae'r gofynion hyn wedi'u cynnwys ym manylebau'r gwasanaethau ynghyd â'r telerau ac amodau.</p> <p>Bydd y tîm comisiynu Teuluoedd yn Gyntaf yn monitro cydymffurfiaeth drwy weithgareddau monitro contract ac maent wedi gofyn i wasanaethau gofnodi data dienw er mwyn cyfrif nifer y teuluoedd sy'n gofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried ym manylebau gwasanaethau cymdeithasol statudol, ac mae'r fanyleb gofal cartref yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd. <b>(GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CYNGOR CAERDYDD)</b></p>

	<p>Sicrhau ein bod yn gallu darparu cymaint o wasanaethau â phosibl yn Gymraeg. Lle nodir bylchau o ran capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg dylai'r rhain gael eu hadlewyrchu yn Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y sefydliad.</p>	Mawrth 2018	Cyngor Dinas Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro	<p>defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith ar draws y gwasanaeth. Mewn llawer o dimau, mae ymateb i'r cynnig rhagweithiol yn dibynnu'n fawr ar siaradwyr Cymraeg nad ydynt mewn swyddi Cymraeg hanfodol, ac mewn rhai meysydd nid oes siaradwyr Cymraeg. Mae'n parhau yn anodd monitro proffil newidiol y gweithlu sy'n siarad Cymraeg dros amser. Mae hyn yn rhannol oherwydd trosiant staff ac yn rhannol o ganlyniad i ddiffyg hyder staff i nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Mae strategaeth y gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfle i ddeall yn well y bylchau a gwneud y gorau ar botensial. Bydd camau'n cael eu datblygu i fwrw ymlaen â hyn yn ystod 2018 - 2019.</p> <p>Fodd bynnag, cafwyd gweithgareddau parhaus i ymateb i a chreu cyfleoedd i wneud y mwyaf o'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg yn ystod 2017-18. Er enghraifft, mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi llwyddo i benodi i swyddi gwaith cymdeithasol Cymraeg hanfodol a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn, ac mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal ynghylch creu mwy o swyddi gwaith cymdeithasol Cymraeg hanfodol yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant. Mae ystod o gyfleoedd hyfforddi Cymraeg (o ddechreuwr i hyfedredd) yn dal i gael eu hyrwyddo'n rheolaidd i'r staff presennol gyda'r amcan o'u hannog nhw i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth eu gwaith. Mae gwasanaethau derbynfa wedi'u nodi fel bwch penodol a disgwylir hyfforddiant iaith Gymraeg penodol i swyddi derbynfeydd.</p> <p>Gobeithir y bydd parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg a chefnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli yn gynyddol yn normaleiddio canfyddiad o'r iaith yn y gweithle. Er enghraifft, ffilmiodd yr Uwch Dîm Rheoli glip byr ar gyfer 'Diwrnod Shwmae'.</p> <p><b>(GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CYNGOR CAERDYDD)</b></p> <p>Mae gan Ferched y Wawr, tair cangen yng Nghaerdydd a dau Glwb.</p> <p>Mae ambell i gangen hefyd yn trefnu clwb cerdded a chlwb darllen y cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Maent yn cwrrdd yn fisol gyda gweithgareddau amrywiol. Rhoddir croeso cynnes i ddysgwyr a chynhelir ambell i gyfarfod arbennig ar eu cyfer. Maent oll yn dathlu dydd Gŵyl Dewi a'r Nadolig - yn aml gwahoddir disgyblion Ysgolion Cymraeg lleol i'w diddanu.</p> <p>Mae nifer o'r aelodau yn gwirfoddoli mewn ysgolion Cymraeg a chefnogi pobl yn ei chymdeithas sy angen cefnogaeth cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yr henoed a phlant ifanc</p> <p><b>(MERCHED Y WAWR)</b></p>
--	---	-------------	--	--



Archwilio'r ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu cynnig i'r cyhoedd a gweithio gydag arbenigwyr mewn pensaernïaeth dewis iaith i sicrhau dewis iaith teg.	Cynnal arbrofion drwy gynnal gwasanaethau ar-lein neu gyfrifiadurol y Cyngor drwy ddulliau pensaernïaeth dewis iaith wahanol er mwyn pennu'r dull mwyaf tebygol o sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r Gymraeg.	Ionawr 2018	Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd	I'w datblygu yn ystod 2018/19. Mae telerau'r gwaith ymchwil yn cael eu cytuno rhwng Prifysgol Caerdydd a Chyngor Caerdydd ar hyn o bryd. <b>(PRIFYSGOL CAERDYDD)</b>
	Cynnal ymchwil gyda rhieni plant cyn ysgol i bennu'r dulliau pensaernïaeth dewis iaith a/neu'r ystyriaethau y gallai fod angen i'r Cyngor eu gweithredu i gynyddu nifer y plant mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd.	Ionawr 2018	Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Dinas Caerdydd	

# ATODIAD 2:

## Caerdydd Ddwyeithog

### Adolygiad o Strategaeth Caerdydd

### Ddwyeithog 2017-2022

#### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig adolygiad allanol annibynnol o Strategaeth 5 mlynedd Cyngor Caerdydd ar gyfer Caerdydd Ddwyeithog, 2017-2022, a gyhoeddwyd ar ffurf drafft ym mis Medi 2016, ac fel adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2017.

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Nia Davies o gwmni Nico, ac fe'i comisiynwyd mewn ymateb i benderfyniad ffurfiol gan y Cabinet ar 16/03/2017 i "gynnal adolygiad allanol annibynnol o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu".

Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Mawrth 2018, ac fe'i seiliwyd ar ymchwil pen desg, adolygiad o ddogfennaeth fewnol sy'n berthnasol i strategaeth Caerdydd Ddwyeithog, cyfweiliadau a chiparolwg o bartneriaid allanol allweddol a chydweithwyr ar draws meysydd partneriaeth allweddol oddi mewn i'r Cyngor.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys ystyriaeth o Adroddiad Sicrwydd 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg, oedd yn canolbwyntio ar gydymffurfedd a digonolrwydd strategaethau 5 mlynedd awdurdodau lleol i hyrwyddo'r Gymraeg; strategaeth Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, ynghyd â strategaethau hybu awdurdodau lleol eraill, sydd ar gael fel dogfennau cyhoeddus.

Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar y strategaeth yn ei chyd-destun statudol a pholisi; ac ynghyd ag adborth o'r arolwg a'r cyfweiliadau, yn ystyried arferion gorau

fel y'u nodwyd gan adroddiad y Comisiynydd o ran: cydymffurfedd a llywodraethu, gweledigaeth a pherchnogaeth, ymgynghori a chyfathrebu, rhanddeiliaid, pennu targedau a mesur perfformiad. Mae wedyn yn amlinellu casgliadau ac argymhellion yr adolygiad i'w hystyried gan Gyngor Caerdydd.

#### 2. Crynodeb

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ym mis Mawrth 2018.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog yn ofyniad statudol penodol, fodd bynnag mae'r Strategaeth yn benllanw llw o weithgareddau strategol amrywiol ledled y ddinas gan y Cyngor a'i bartneriaid. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod ei pherthnasedd yng nghyd-destun amcanion strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, a'i rôl oddi mewn i gyd-destun polisi ehangach.

O ystyried y Strategaeth yng ngoleuni arferion gorau cydnabyddedig a sylwadau gan rhanddeiliaid, canfu'r adolygiad hwn fod y Strategaeth wedi'i llunio ar seiliau cryf gwaith ymgynghori a chyfathrebu, ac mae fframwaith cydymffurfio a chraffu cryf ar waith ar ei chyfer.

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yn cyfateb i'r weledigaeth genedlaethol, ac maent yn seiliedig ar waith ymgynghori agos â phartneriaid. Maent yn adlewyrchiad naturiol o anghenion penodol y boblogaeth, ac maent wedi'u crynhoi mewn 3 maes strategol. Mae'r targedau sy'n deillio ohonynt yn amlygu ystyriaeth o'r ddarpariaeth gyfredol a'r cyfyngiadau ariannol sy'n bodoli, ac yn ôl

rhanddeiliaid allweddol, maent yn rhai realistig a chyraeddadwy.

Mae'r strategaeth yn cael ei gyrru gan weledigaeth bwrpasol a gefnogir gan arweinyddiaeth a phersonél allweddol rhagweithiol, ynghyd â phroses atebolrwydd gadarn sy'n cynnwys elfen o graffu allanol gan bartneriaid allweddol a pherthynas gref drwy Fforwm Caerdydd Ddwieithog.

Dylid dathlu cryfderau Strategaeth Caerdydd Ddwieithog a dylid rhannu arferion da. Mae nifer o gyfleoedd i ystyried cryfhau gweithrediad y strategaeth ymhellach, ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ceisio amlygu'r cyfleoedd hynny yng ngoleuni'r canfyddiadau a'r adborth gan rhanddeiliaid. Amlinellir yr argymhellion ar dudalen 28 a 29.

### 3. Cyd-destun

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn ofyniad statudol penodol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ond mae hefyd yn bodoli mewn cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei pherthnasedd yng nghyd-destun amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, a'i rôl ochr yn ochr â Chynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg ynghyd ag amcanion y Cynllun Llesiant, Caerdydd 2020, a chynllun gweithredu Mwy na Geiriau.

#### 1.5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Fe sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg drwy reoliadau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a orfodir ar Gyngor Caerdydd yn Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Y safonau sy'n berthnasol i'r Strategaeth 5 mlynedd yw safonau 145 a 146 ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Caerdydd:

- Iunio, a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Gyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal;
- cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw;
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r Gyngor yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
- adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar y wefan o

fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni);

- ar ôl 5 mlynedd, asesu i ba raddau mae'r Gyngor wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi;
- cyhoeddi'r asesiad ar y wefan, gan sicrhau i ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
- amlinellu yn yr asesiad, restr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu ariannwyd gan y Gyngor yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Mae ystyriaethau pellach yn y Rheoliadau hyn sy'n berthnasol i'r strategaeth 5 mlynedd o dan Faterion Atodol (Safonau 173 a 174) sy'n gofyn i gyrrff:

- sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu mae'r Gyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, ar gael i'r cyhoedd;
- darparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r safonau hybu.

#### ii. Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2016 o'i gweledigaeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, cyhoeddwyd Strategaeth Cymraeg 2050 ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r Strategaeth yn amlinellu agwedd hirdymor y Llywodraeth tuag at wireddu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn seiliedig ar dair thema strategol:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Targedau Cymraeg 2050 yw:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050.
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei Rhaglen Waith gyntaf ar gyfer y strategaeth. Mae'n amlinellu, fesul amcan, yr hyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu'i wneud yn ystod y cyfnod 2017 hyd 2021. O ran y rhaglen gychwynnol hon o waith, mae'n werth nodi geiriau'r Llywodraeth:

*“Bydd y blynyddoedd cychwynnol yn canolbwyntio ar osod seiliau cadarn. Mae hon yn broses araf, gyson, heb lwyddiant amlwg efallai. Eto i gyd, rydym yn ystyried bod gosod y seiliau nawr yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynnal camau pellach i weithredu'r strategaeth.”*

Mae'r dull hwn o weithredu yn allweddol i strategaeth hirdymor o gynllunio ieithyddol a thwf, ac mae'n bwysig cadw hyn mewn cof o ran y targedau sydd wedi'u gosod yn Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwieithog. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd sefydlu sylfaen gref yn y blynyddoedd cychwynnol er mwyn gwireddu'r targed hirdymor o ddyblu nifer ei siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae strategaeth y Llywodraeth yn cydnabod rôl awdurdodau lleol wrth gyflawni ei hamcanion ledled Cymru, ac yn yr un modd, mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn gosod gweledigaeth y Llywodraeth yn ganolog i'r nod yn y Datganiad Cenhadaeth:

### **Datganiad Cenhadaeth**

**Gweithio gyda phartneriaid i ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 drwy Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru.**

### **iii. Addysg**

Gan adleisio'r strategaeth genedlaethol, mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Caerdydd yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol o ran creu siaradwyr newydd.

*“Mae'r CSCA hwn yn rhan annatod o Strategaeth 5 Mlynedd Caerdydd Ddwieithog. Mae'r prif faes o ryng-ddibyniaeth rhwng y ddwy strategaeth yn seiliedig ar faes strategaeth 1: Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc. Mae'r blaenoriaethau yn y maes hwn yn seiliedig ar hyrwyddo, darpariaeth a dilyniant.”*

Mae'r Llywodraeth wedi amlinellu eu cynlluniau i adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg Gymraeg, ynghyd ag adolygu'r broses i gynyddu cyfran yr addysgu a'r dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, a bod Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif yn sicrhau cynnydd yn nifer y llefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd yn “symud o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn systematig a rhagweithiol.”

Mae hyn yn tanlinellu'r disgwyliad y bydd datblygiadau pellach mewn deddfwriaeth a pholisi dros y pum mlynedd nesaf, ac y bydd cyfeiriad Cyngor Caerdydd yn parhau tuag at raglen waith uchelgeisiol a heriol.

### **iv. Llesiant**

Nod Cynlluniau Llesiant lleol yw cynnig agwedd fwy cyfannol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ffordd well o integreiddio'r deddfau, y dyletswyddau a'r fframweithiau cynllunio perthnasol.

Un o'r nodau Llesiant o dan y Ddeddf yw ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu’. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod bod cyswllt agos iawn rhwng yr iaith a'r nodau Llesiant eraill, a phwysigrwydd partneriaethau a fframweithiau ehangach.

Caiff nod Strategaeth Caerdydd Ddwieithog ei atgyfnerthu yn y Cynllun Llesiant drafft:

*“Ceisio dyblygu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 trwy gefnogi darparu Strategaethau Caerdydd Ddwieithog.”*

Mae'r Cynllun drafft yn amlinellu mesurau cynnydd yn nhermau niferoedd siaradwyr/addysg:

- Pobl a all siarad Cymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 37)
- Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n Cyflawni Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (Dangosydd Cenedlaethol)

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi dogfen gyngor yn ddiweddar: Ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Llesiant sy'n edrych ar y modd y gallai Cynlluniau Llesiant Lleol ystyried pob nod Llesiant yng nghyd-destun y Gymraeg. Gallai hyn gynorthwyo wrth gryfhau'r cysylltiadau rhwng nodau'r ddwy strategaeth ymhellach.

### **v. Strategaeth hybu 5 mlynedd Awdurdodau Lleol**

Yn Adroddiad Sicrwydd 2016-17, Hawliau'n Gwreiddio, edrychodd Comisiynydd y Gymraeg ar strategaethau 5 mlynedd awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad o gydymffurfiaeth ynghyd â'r nodweddion angenrheidiol ar gyfer strategaethau hybu cryf ac effeithiol. Nododd y Comisiynydd yr elfennau canlynol fel enghreifftiau o arfer da, a bydd yr adolygiad hwn yn ystyried Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn y cyd-destun hwn:

**Perchnogaeth ac atebolrwydd:** Mae rhai strategaethau yn dangos perchnogaeth amlwg gan y sefydliad cyfan... a strwythur atebolrwydd clir ar gyfer gweithredu ac asesu cynnydd.

**Gwaelodlin:** Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn seilio'u targedau a'u cynlluniau gweithredu ar gyfer hybu a hwyluso ar dystiolaeth feintiol ac ansoddol.

**Gweledigaeth glir:** Mae datganiad clir o weledigaeth yn gymorth nid yn unig i'r cyhoedd ddeall trywydd y corff ond mae'n gymorth hefyd i holl staff y sefydliad sy'n gorfod gweithredu'r camau perthnasol.

**Partneriaid:** Mae'r cynlluniau gweithredu mwyaf cynhwysfawr yn cyffwrdd â phob maes perthnasol ac yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, ac wrth gwsr y bobl leol.

**Cyd-destun ehangach:** Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn ymdrin â chyd-destun ehangach o ran ffyniant y Gymraeg, er enghraifft, y cyd-destun cymdeithasol / economaidd lleol; croesyfeirio â chynllun strategol Cymraeg mewn addysg a strategaethau eraill sy'n gorgyffwrdd yn lleol ac yn genedlaethol.

**Mesur cynnydd:** Mae'r strategaethau mwyaf cynhwysfawr yn pennu targedau clir, blaenoriaethau strategol, dangosyddion meintiol, a chynllun gweithredu manwl gyda chyswllt clir rhwng y gweithgareddau a'r blaenoriaethau strategol. Mae'r cynlluniau gweithredu mwyaf cynhwysfawr yn pennu targedau ac amserlen glir, ynghyd â chofnodi cyfrifoldebau.

Page 17  
(Adroddiad Sicrwydd 2016-17 Hawliau'n Gwreiddio)

Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn erbyn strategaethau awdurdodau lleol eraill, gan eu bod wedi'u llunio mewn ymateb i amrywiaeth eang o anghenion ieithyddol sy'n benodol i'w hardaloedd.

Serch hynny, mae'n bosibl adnabod cydymffurfedd â gofynion safon 145, a chynnig barn ar gadernid a chwmpas y strategaeth yn erbyn yr arferion gorau a amlygir yn adroddiad y Comisiynydd ynghyd â blaenoriaethau strategol y strategaeth genedlaethol, Cymraeg 2050. Mae adrannau dilynol yr adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau perthnasol.

## 4. Y Strategaeth

### Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio.

Wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 23 Mawrth 2017, mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn nodi "Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig" gan amlygu pwysigrwydd partneriaid strategol a gweithio ar draws nifer o feysydd polisi allweddol.

Yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith ar draws ystod o flaenoriaethau strategol mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y Cyngor ac yn allanol, mae'r Strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymru (3+ oed) yng Nghaerdydd o 15.9%, o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,584 (Cyfrifiad 2021).

Datblygwyd y blaenoriaethau strategol mewn ymgynghoriad â phartneriaid ac maent yn adlewyrchiad naturiol o anghenion penodol y boblogaeth. Mae'r blaenoriaethau wedi'u crynhoi mewn 3 maes strategol sydd hefyd yn adlewyrchu penawdau blaenoriaethau allweddol strategaeth y Llywodraeth.

Ar gyfer yr adolygiad hwn, cynhaliwyd ciparolwg yn ystod mis Mawrth 2018 i gasglu barn rhanddeiliaid ar Strategaeth Caerdydd Ddwieithog. Cyfyngwyd y ciparolwg hwn yn fwriadol i'r prif bartneriaid allanol o blith aelodau Fforwm Caerdydd Ddwieithog, a hefyd partneriaid allweddol oddi mewn i'r Cyngor mewn adrannau amrywiol perthnasol i weithrediad y Strategaeth. Cafwyd 12 ymateb cynrychioliadol.

*"Mae'r Strategaeth yn cynnig gweledigaeth glir i'r Gymraeg yng Nghaerdydd"*

*"Mae'r strategaeth wedi dod â phartneriaid ynghyd i gydweithredu"*

(Sylwadau gan brif rhanddeiliaid)

Mae ymatebion y prif bartneriaid wedi bwrw goleuni defnyddiol ar gryfderau'r strategaeth, a chyfleoedd posibl i gryfhau a datblygu'r strategaeth yn ystod ei hoes o safbwynt y partneriaid. Mae adroddiad llawn yr arolwg rhanddeiliaid yn Atodiad 1. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 2.

### *i cydymffurfiaeth a llywodraethu*

Cwestiynau allweddol:

- A yw Cyngor Caerdydd yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol?
- A oes system ddigonol ar waith i sicrhau craffu a her effeithiol i'r strategaeth?

Yn y ddau faes hwn, gwelwyd bod gan Gyngor Caerdydd ddarpariaeth gadarn o ran cydymffurfio a chraffu:

**Cydymffurfio:** Er bod gweledigaeth a nod y strategaeth yn bellgyrhaeddol, bydd Comisiynydd y Gymraeg, fel y corff rheoleiddio yn craffu ar y modd y mae'r Strategaeth yn cydymffurfio â'r ddwy safon.

Mae Cyngor Caerdydd wedi llunio a chyhoeddi'r strategaeth sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'i defnydd yn ehangach. Mae hefyd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd, gan gynnwys egluro'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu'r targed hwnnw. Mae'r elfennau hyn yn ymateb yn uniongyrchol i ofynion Safon 145.

Maes o law, fe fydd bodloni Safon 146 yn golygu adolygu'r strategaeth ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd ac asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed, gan amlinellu nifer y siaradwyr Cymraeg a rhestr o weithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd i hybu'r iaith dros y cyfnod 5 mlynedd.

Mae hyn felly yn cynnwys cynnal cofnod o gynnydd o safbwynt cyflawni'r targedau a nodir yn y cynllun gweithredu, ynghyd â thystiolaeth sy'n dangos cynnydd tuag at y targed cyffredinol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Bydd angen amrywiaeth o wybodaeth ansoddol a meintiol ar gyfer y dystiolaeth hon, wedi'i chasglu gan y Cyngor a'i bartneriaid allanol.

Lleisiodd un ymatebydd i'r arolwg rhanddeiliaid nodyn o bryder, gan godi cwestiwn ynghylch y ddibyniaeth ar bartneriaid allanol i gasglu rhywfaint o'r dystiolaeth angenrheidiol:

*"Ansicr ynghylch pa mor fesuradwy yw rhai o'r targedau oherwydd eu bod yn ymestyn dros y ddinas gyfan, ac yn gofyn am fewnbwn gan nifer o sefydliadau sydd yn gorfod 'cyfrif' yr un peth. A oes chyd-dealltwriaeth/cyd-gytundeb yn hyn o beth?"*

Gyda chyfarfodydd chwarterol Fforwm Caerdydd Ddwyeithog (sy'n cynnwys y prif bartneriaid cysylltiedig), ynghyd â chylch gorchwyl ar ei newydd wedd sy'n canolbwyntio ar weithredu'r Strategaeth ei hun, ymddengys bod cyfle digonol i sicrhau eglurder a dealltwriaeth o ran yr hyn a gaiff ei fesur a sut. Serch hynny, efallai byddai'n fuddiol i edrych eto ar y gofynion hyn i sicrhau bod cofnodion a thystiolaeth ddigonol yn cael eu cadw.

**Craffu:** Fel y nodwyd uchod, mae Fforwm Caerdydd Ddwyeithog, gyda'i gylch gorchwyl newydd sy'n canolbwyntio ar weithredu'r Strategaeth, yn sicrhau lefel dda o orolwg a monitro i'r Strategaeth.

Gofynnodd yr arolwg rhanddeiliaid wrth y rhanddeiliaid allanol a oedd y Fforwm yn fecanwaith effeithiol ar gyfer monitro gweithrediad y strategaeth a gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r Cyngor, ac fe gytunodd pob un o'r ymatebwyr â'r datganiad hwn.

Arsylwyd un o gyfarfodydd y Fforwm fel rhan o'r adolygiad hwn, a gwelwyd bod y Fforwm yn gyfle i bartneriaid roi diweddariad ar gynnydd gyda gwaith sydd ynghlwm â'r targedau sy'n berthnasol iddynt hwy, ac yn cynnig her i Gyngor Caerdydd ar ei gynnydd hefyd. Ynghyd, mae'r partneriaid yn gallu ymateb ac addasu'n effeithiol i unrhyw newidiadau neu ffactorau allai effeithio ar y cynllun gweithredu, a chymryd mantais ar unrhyw gyfleoedd newydd sy'n codi. Cafwyd sylw yn ystod y cyfarfod, oedd yn crisialu hyn:

*"Gall targedau a blaenoriaethau ddyddio a gall cyfleoedd i weithredu godi yn annisgwyl, ond mae hefyd yn bwysig i ni beidio ag osgoi pethau sy'n anodd neu'n heriol, ac sydd ond yn targedu siaradwyr Cymraeg."*

O dan eu cylch gorchwyl newydd, mae'r Fforwm yn adrodd i'r grŵp o aelodau trawsbleidiol, sef Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog sy'n cwrdd bob chwarter (e.e. ym mis Ebrill 2018, gwahoddwyd 2 brif bartner, Menter Caerdydd a'r Eisteddfod Genedlaethol, i ddod i roi cyflwyniad i'r Grŵp). Mae Cadeirydd y Grŵp yn ysgrifennu'n ffurfiol i'r Cabinet yn dilyn pob cyfarfod i hysbysu'r Cabinet ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Hefyd, mae Pennaeth Caerdydd Ddwyeithog yn cwrdd bob mis ag Arweinydd y Cyngor, sef deiliaid y portffolio ar y Gymraeg.

Hyd yma, ni fu unrhyw ofynion ffurfiol i adrodd yn flynyddol ar weithredu'r Strategaeth i Gomisiynydd y Gymraeg, ond darperir diweddariad ar gynnydd y Strategaeth gan Gyngor Caerdydd yn yr Adroddiad Blyneddol ar Safonau'r Gymraeg. Cyflwynir yr adroddiad blyneddol hwn i'r Cyngor Llawn sydd caniatáu lefel ychwanegol o graffu, ynghyd â chyfle i hyrwyddo'r raglen gynhwysfawr o waith y mae Caerdydd Ddwyeithog yn ymgymryd â hi, ar draws y Cyngor.

**Adnoddau digonol:** Un o brif elfennau llywodraethu da yw sicrhau adnoddau digonol, ac mae risg ynghlwm os nad oes digon o adnoddau ar gael i gefnogi targedau pwysig.

Gofynnodd yr arolwg rhanddeiliaid a oedd rhanddeiliaid o'r farn bod gan y Cyngor adnoddau digonol i weithredu'r strategaeth, ac o'r rheini a ymatebodd (10), dywedodd 6 nad oeddent o'r farn bod yna ddigon o adnoddau ar gyfer y strategaeth hon. Roedd yr ymateb hwn yn gyfartal rhwng partneriaid mewnol ac allanol.

*“Rhaid cefnogi’r sefydliadau partner ac ni ddylid torri cyllid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn tyfu ar draws y ddinas.”*

*“Dylai’r Cyngor ddarparu adnoddau digonol i’r Urdd er mwyn cyflawni amcanion y Strategaeth hon”*

Lluniwyd y cynllun gweithredu gan gadw’r cyfyngiadau ariannol presennol mewn cof, ac mae’n seiliedig ar gynlluniau a’r ddarpariaeth gyfredol ar draws y partneriaethau. Serch hynny, amlygir meysydd i’w hystyried yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ac fe fyddai’n fuddiol i ystyried unrhyw risgiau posibl a allai godi yn y dyfodol. Mewn adroddiad yn dwyn y teitl ‘Over-optimism in government projects (2013), mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar y risgiau sydd ynghlwm â phrosiectau a strategaethau mawr yn sgil disgwyliadau gor-uchelgeisiol. Mae’n rhybuddio y gall optimistiaeth arwain at duedd i danbriso heriau gweledigaeth gymhleth o ran cyfyngiadau capasiti, amser ac arian.

#### I’w ystyried ymhellach:

A1. Dylid ystyried adolygiad o’r hyn a gaiff ei fesur, (a phryd, sut a chan bwy) er mwyn atgyfnerthu cyd-ddealltwriaeth, proses gadarn o ran cadw cofnodion a thystiolaeth o gynnydd tuag at y blaenoriaethau strategol a’r targed cyffredinol.

Page  
119

#### **Y Gweledigaeth a pherchnogaeth**

Cwestiynau allweddol:

- A oes gweledigaeth glir a diffiniad o bwrpas?
- A oes perchnogaeth ac arweinyddiaeth glir i’r strategaeth a’i gweithrediad?

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn nodedig oherwydd bod ei gweledigaeth a’i nod wedi’u hamlinellu’n glir, a chaiff hyn ei atgyfnerthu gan gefnogaeth yr arweinyddiaeth oddi mewn i’r Cyngor. Nid yn unig y gwelir hyn yn y ddogfen ei hun, ond hefyd o ran proffil a ‘brand’ Caerdydd Ddwieithog, a’r gefnogaeth a gaiff ei lleisio’n rheolaidd gan yr Arweinydd i’r weledigaeth o ddatblygu dinas wirioneddol ddwyieithog.

Er mwyn cryfhau ei ymrwymiad ymhellach, mae’r Cyngor wedi llunio dogfen bolisi fewnol yn ddiweddar ar y defnydd o’r Gymraeg oddi mewn i’r Cyngor, gyda’r weledigaeth o fod yn sefydliad dwyieithog, sy’n gwerthfawrogi ac yn cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg ymhlith y staff. Bydd hyn yn caniatáu i’r Cyngor arwain drwy esiampl ac annog y defnydd o’r Gymraeg ar draws y ddinas.

**Gweledigaeth:** Fel y nodwyd uchod, mae’r Strategaeth yn cydnabod ei lle oddi mewn i’r weledigaeth genedlaethol, ac mae’n amlinellu’n glir ei chyfrifoldeb o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae’r weledigaeth hefyd yn rhoi amlinelliad o’r ffordd y bydd Caerdydd Ddwieithog yn edrych, teimlo a swnio, ac mae’r Strategaeth yn seiliedig ar dri maes strategol gyda blaenoriaethau perthnasol a thargedau er mwyn gweithredu.

Yn yr arolwg rhanddeiliaid, nododd pob un o’r ymatebwyr eu hymwybyddiaeth a’u dealltwriaeth o’r weledigaeth ar gyfer Caerdydd Ddwieithog. Serch hynny, nododd 5 o’r 7 mai â’r datganiad *“Mae gen i fy nealltwriaeth i fy hun o weledigaeth strategaeth Caerdydd Ddwieithog ond wn i ddim a yw’n cyfateb â dealltwriaeth pawb arall” yr oedden nhw’n cytuno.*

Roedd 2 o’r 5 partner allanol hefyd yn cytuno â’r datganiad uchod, gyda 3 o’r 5 yn nodi bod eu dealltwriaeth yn *“(g)lir iawn, byddech yn clywed yr un disgrifiad ohoni gan bob un o’r partneriaid.”*

Mae’r canlyniad hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cefnogaeth a chyswllt parhaus er mwyn mynegi’r weledigaeth mewn cyd-destunau sy’n berthnasol i adrannau gwahanol y Cyngor ac ymhlith partneriaid yn gyffredinol yn ystod oes y strategaeth.

**Perchnogaeth:** Fel y nodwyd uchod, wrth hyrwyddo’r weledigaeth, mae Arweinydd Cyngor Caerdydd wedi lleisio cyfrifoldeb y Cyngor wrth wireddu’r Strategaeth ar fwy nag un achlysur, ond mae hefyd yn atgyfnerthu’r ffaith mai cyfrifoldeb dinas gyfan ydyw, sy’n ddibynnol ar bartneriaid allweddol.

Roedd canlyniadau’r arolwg rhanddeiliaid hefyd yn rhannu’r farn bod y strategaeth wedi sicrhau bod gan bob partner ran yn y weledigaeth, ac yn eu dwyn ynghyd i gydweithio a defnyddio arbenigedd a gallu nifer o bartneriaid, gan fanteisio ar safle Caerdydd fel prifddinas. Serch hynny, roedd rhai sylwadau yn tanlinellu pryderon nad oedd perchnogaeth y strategaeth wedi’i rhannu’n gyson ymhlith rhai partneriaid (mewnol ac allanol) allweddol, gydag un yn nodi, er enghraifft:

*“Mae tîm Caerdydd Ddwieithog yn meddu ar ymroddiad amlwg a gweledigaeth glir ynghylch y Gymraeg. O ran gweddill y Cyngor, fy argraff yw bod y nodweddion hyn yn bur anwastad. Byddai’n fuddiol pe bai rhai adrannau, gan gynnwys yr adran addysg yn arbennig, yn dangos rhagor o flaengaredd ynghylch y Gymraeg gan fod potensial gwneud llawer mwy pe bai’r ddealltwriaeth a’r ymroddiad yno.”*

### I'w ystyried ymhellach

A2. Dylid ystyried ymhellach yr hyn a olygir wrth Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog mewn termau meintiol yng nghyd-destun y blaenoriaethau strategol. Dylid hefyd ystyried sicrhau cyswllt rhwng dangosyddion allweddol mesuradwy a cherrig milltir llwyddiant â'r cynllun gweithredu fel bod pob partner yn deall yr hyn sydd i'w gyflawni a'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu.

A3. Dylid sicrhau cefnogaeth a chyswllt parhaus i egluro'r weledigaeth mewn cyd-destunau sy'n berthnasol i adrannau gwahanol y Cyngor, ac ymhlith partneriaid yn gyffredinol yn ystod oes y strategaeth. Bydd hyn yn gymorth i gryfhau'r gyd-ddealltwriaeth o bwrpas ac o wireddu'r strategaeth yn ystod ei hoes.

### iii ymgynghori a chyfathrebu

Cwestiynau allweddol:

- A wnaeth y Cyngor ymgynghori'n ddigonol ar y Strategaeth?
- A yw'r Cyngor yn parhau i ymgynghori a chyfathrebu'n effeithiol?

Roedd rhaglen yr ymgynghoriad ar y Strategaeth gyda'r mwyaf cynhwysfawr a chynhwysol a gynhaliwyd ar unrhyw strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg.

**Ymgynghori:** Dechreuodd y broses ymgynghori gydag ymgynghoriad mewnol ac arolwg ar-lein a ddenodd tua 40 o ymatebion o drawstoriad amrywiol o adrannau. Ffurfiodd y sylwadau hyn y sail ar gyfer y blaenoriaethau drafft a ddatblygwyd yn broses ymgynghori bellach gyda swyddogion polisi, penaethiaid gwasanaethau, grŵp Cydlynwyr a Phencampwyr y Gymraeg, rhwydweithiau cydraddoldeb mewnol, Gweithgor Aelodau Caerdydd Ddwyeithog, a Phwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad.

Yn ôl swyddog yn nhîm Caerdydd Ddwyeithog, “*er bod hyn yn golygu cryn dipyn o waith, roedd yn hynod fuddiol i ni fod wedi cynnal ymgynghoriad mewnol mor drylwyr, gan fod adrannau amrywiol bellach yn deall gwerth y strategaeth ac yn rhannu perchnogaeth ohoni*”.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth Caerdydd Ddwyeithog yn ystod hydref 2016, gyda dros 70 y cant o ymatebwyr un ai'n cytuno neu'n tueddu i gytuno â gweledigaeth Caerdydd wirioneddol ddwyieithog, a dros 53 y cant yn cytuno â'r targed o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y brifddinas.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithdy ar 20 Hydref 2016, gyda 26 o brif bartneriaid a rhanddeiliaid. Ymhlith y mynychwyr oedd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru.

O ran yr arolwg rhanddeiliaid, cytunodd pob un o'r ymatebwyr fod cyfle digonol wedi'i roi i bobl allu gynnig mewnbyn i'r Strategaeth.

**Cyfathrebu:** O ran cyfathrebu, cytunodd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg (10 allan o'r 12) fod y Cyngor yn parhau i gyfathrebu'n effeithiol wrth weithredu'r Strategaeth.

Yn ystod cyfarfod y Fforwm, awgrymwyd y gellid gwahodd ystod ehangach o bartneriaid unwaith y flwyddyn er mwyn cynnal cyfarfod o'r Fforwm fyddai'n cynnwys rhanddeiliaid nad ydynt fel arfer yn mynychu er mwyn ehangu mewnbyn. Byddai hyn wedyn yn cynnig llwyfan effeithiol i Gaerdydd Ddwyeithog ddarparu diweddariad i gynulleidfa ehangach o rhanddeiliaid ar gynydd, er mwyn sicrhau mewnbyn ymarferol gan bartneriaid, ac i atgyfnerthu perchnogaeth ddinas gyfan o'r weledigaeth.

Yn ôl un o ymatebwyr yr arolwg:

*“(Mae) angen bod cynrychiolaeth o'r holl bartneriaid yn rhan o'r Fforwm sirol, e.e. yn cynnwys cynrychiolydd o adran addysg y sir er mwyn gyrru'r gwaith yn ei flaen yn lle dibynnu yn unig ar y partneriaid Cymraeg i fwrw mlaen gyda'r gwaith craidd.”*

### I'w ystyried ymhellach

A4. Fel yr awgrymwyd yng nghyfarfod y Fforwm, dylid ystyried y posibilrwydd o ehangu cyfarfod o'r Fforwm unwaith y flwyddyn i bartneriaid ehangach er mwyn caniatáu i Gaerdydd Ddwyeithog sicrhau mewnbyn ymarferol gan bartneriaid sy'n cynrychioli amryw fuddiannau, ac i atgyfnerthu perchnogaeth ddinas gyfan ar y weledigaeth.

### iv rhanddeiliaid

Cwestiynau allweddol:

- Ydy'r rhanddeiliaid allweddol wedi'u hadnabod, a yw eu cefnogaeth wedi'i sicrhau, ac a yw eu cyfraniad, dylanwad ac anghenion wedi'u deall?



Mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog yn seiliedig ar waith cadarn i fraenaru'r tir a gynhaliwyd yn ystod 2014 i adnabod ac i greu cyswllt â phartneriaid allweddol er mwyn gwireddu gweledigaeth dinas ddwyeithog.

**Rhanddeiliaid allweddol:** Fel y mae'r Strategaeth ei hun yn ei chydabod, mae ei llwyddiant yn ddibynnol ar bartneriaid allanol yn ogystal â phartneriaid mewnol.

Bu cynhadledd 2014 yn fodd o alluogi partneriaid i ystyried a lleisio'r materion a'r blaenoriaethau a fyddai, yn y lle cyntaf, yn arwain at sefydlu yr Hen Lyfrgell fel canolfan fywiog ar gyfer y Gymraeg yng nghanol y ddinas, ac yn ail, yn ffurfio seiliau partneriaeth gref ar gyfer Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwieithog. Atgyfnerthwyd hyn gan Gynhadledd Caerdydd Ddwieithog a gynhaliwyd yn yr hydref yn 2016, a ganiataodd partneriaid a rhanddeiliaid i drafod a chydweithio ar y Strategaeth ddrafft.

Gofynnodd yr arolwg rhanddeiliaid am adborth ar gryfderau a gwendidau'r Strategaeth. Sylwadau cadarnhaol a gafwyd yn bennaf, yn ymwneud â gallu'r Strategaeth i ddod â phobl ynghyd:

*“Mae'r strategaeth wedi dod â phartneriaid ynghyd i gydweithio heb ddyblygu gwaith.”*

Yn hynny, amlygodd rhai sylwadau gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a dealltwriaeth bellach, ac ystyriaeth o'r modd y caiff y Strategaeth ei chyfathrebu a'i fframio o sbectol ymwynt perchnogaeth a chyfranogiad yn ystod y 5 mlynedd:

*“Nid yw'n ymwneud â'r sector gwirfoddol Cymraeg yn y ddinas.”*

*“Mae teimlad fod y Sir yn ildio peth o'u cyfrifoldeb a'u rhoi ar bartneriaid.”*

Yn ôl yr arolwg rhanddeiliaid, cytunodd 9 o'r 12 fod y Cyngor yn deall pwysigrwydd rhanddeiliaid er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Strategaeth.

Pan ofynnwyd ynghylch cefnogaeth gan randdeiliaid, o'r rheini a atebodd (10), mynegodd 4 bryder nad oedd y Cyngor wedi sicrhau cefnogaeth pob rhanddeiliad eto, ond roedd 6 yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Pan ofynnwyd ynghylch a oedd rhanddeiliaid yn sylweddoli pwysigrwydd eu cyfraniad at sicrhau llwyddiant y strategaeth, roedd ychydig o wahaniaeth yn yr ymateb, gyda 4 o'r 5 partner mewnol yn cytuno â'r datganiad nad oedd rhai rhanddeiliaid yn y Cyngor yn sylweddoli pwysigrwydd eu cyfraniad at sicrhau llwyddiant y strategaeth. O ran y partneriaid allanol, dim ond 2 o'r 5 oedd yn cytuno â hyn.

## I'w ystyried ymhellach

A5. Dylid ystyried datblygu a chynnal cynllun rheoli rhanddeiliaid er mwyn cynnal a meithrin y berthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod oes y Strategaeth.

A6. Dylid ystyried datblygu a chynnal rhaglen gyfathrebu i gefnogi gweithrediad y Strategaeth.

## v targedau a mesur perfformiad

Cwestiynau allweddol:

- A yw'r targedau yn seiliedig ar waelodlin clir, ac a ydynt yn glir, yn ymarferol ac yn realistig?
- Pa dystiolaeth fydd ar gael i ddangos llwyddiant y strategaeth ac i ba raddau mae'n bosibl diffinio newid mesuradwy yn dilyn camau gweithredu penodol?

Mae'r targed o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn seiliedig ar ddadansoddiad ystadegol eglur; fel y gwelwyd uchod, mae blaenoriaethau a thargedau strategol y Strategaeth wedi'u pennu yn dilyn ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol, ac mae adrodd ar gynnydd mewn modd systematig yn erbyn cynllun gweithredu clir.

**Gwaelodlin:** Mae gwaelodlin clir yn caniatáu targedau mesuradwy. Seiliwyd y targed cyffredinol o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ar waith a gynhaliwyd ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Caerdydd, gan ystyried dadansoddiad ystadegol a demograffig ynghyd â'r cynnydd angenrheidiol mewn niferoedd er mwyn pennu'r cynnydd canrannol angenrheidiol fesul blwyddyn.

Prif ffynonellau data'r Cyngor o ran nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith ei boblogaeth, ar wahân i Gyfrifiad 2021, yw'r data addysg (PLASC) a data'r gweithlu a fydd yn caniatáu i'r Cyngor olrhain unrhyw dueddiadau a chynnydd tuag at y targed fesul blwyddyn.

Yn yr arolwg, meddai un ymatebydd:

*“Mae prif darged tymor hir y Strategaeth, sef dyblu nifer y siaradwyr yng Nghaerdydd erbyn 2050, wedi ei alinio â tharged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru... Dyblodd nifer siaradwyr Cymraeg Caerdydd rhwng 1991 a 2011 sy'n awgrymu nad yw'r targed hwnnw'n rhy uchelgeisiol.”*

O ran y targedau yn y cynllun gweithredu sy'n anelu at wireddu'r blaenoriaethau strategol a nodwyd, yn ôl un ymatebydd a oedd yn cyfeirio at y broses fewnol:

*"Fe wnaethon ni gytuno ar dargedau'r maes gwasanaeth gydag Uned yr Iaith Gymraeg drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau bod y targedau yn realistig ac yn gyraeddadwy."*

Serch hynny, mae nifer o'r gweithgareddau y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol y Cyngor ac yn dod o dan gylchoedd gorchwyl a rhaglenni gwaith y partneriaid. Adroddir ar y targedau hyn yng nghyfarfod chwarterol y Fforwm.

Yn yr arolwg, pan ofynnwyd ynghylch y targedau yn y Strategaeth sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith, cytunodd 8 o'r 12 ymatebydd fod targedau'r Strategaeth yn realistig ac yn gyraeddadwy. Fe fynegodd un partner allanol a 3 phartner mewnol ansicrwydd ynghylch a oedden nhw'n realistig neu'n rhy uchelgeisiol.

**Blaenoriaethau strategol:** Datblygwyd blaenoriaethau strategaeth Caerdydd mewn ymgynghoriad gofalus gyda phartneriaid, gan adlewyrchu anghenion penodol y boblogaeth. Maent wedi'u crynhoi mewn 3 maes strategol ac yn cynnig canlyniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd o ran y defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd. Felly, mae sail eglur a rhesymegol i'r strategaeth, sy'n cwmpasu pob blaenoriaeth strategol perthnasol sydd hefyd yn adlewyrchu'r penawdau blaenoriaethau allweddol a welir yn strategaeth y Llywodraeth.

Pan ofynnwyd ynghylch eu barn am flaenoriaethau strategol y Strategaeth, cytunodd 9 o'r 12 ymatebydd, fod nod y Strategaeth yn gydnaws â blaenoriaethau eu hadrannau neu eu sefydliadau yn gyffredinol. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant y broses ymgynghori gychwynnol oedd yn caniatáu i'r Strategaeth gael ei chydblythu â nodau strategol ehangach.

Gan fod Strategaeth Caerdydd Ddwieithog wedi'i llunio cyn i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi, awgrymwyd yn y ddogfen y gallai adolygiad o'r strategaeth fod yn briodol er mwyn ei halinio'n agosach â'r ddogfen genedlaethol. Gan fod llawer o elfennau rhyng-ddibynnol yn y Strategaeth, a thargedau sy'n ddibynnol ar randdeiliaid allanol a'u cylchoedd ariannu amrywiol, efallai byddai adolygiad o'r cynllun gweithredu ei hun yn ddoeth cyn canol oes o Strategaeth.

**Mesur perfformiad:** Mae strwythur craffu ac adrodd clir ar gyfer y Strategaeth. Fel y nodwyd yn adran 4(i) ar gydymffurfio a llywodraethu, bydd angen mesur cynnydd tuag at y blaenoriaethau strategol a'r targed cyffredinol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mewn modd ystyrlon ac effeithiol, gydag amrywiaeth o dystiolaeth feintiol ac ansoddol.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r strategaeth eangfrydig ac uchelgeisiol hon yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol ac nid oes cyllideb benodol ar ei chyfer, ac felly mae'n seiliedig ar gapasiti a gweithgaredd presennol y Cyngor a'i bartneriaid. Fel y nodwyd yn adran 4(ii), amlygwyd diffyg adnoddau digonol fel pryder i 6 allan o'r 10 ymatebydd.

Efallai byddai cynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu maes o law yn amlygu bylchau strategol, nad yw'n bosibl mynd i'r afael â hwy heb gyllideb. Serch hynny, er gwaethaf diffyg cyllid, dylid amlygu'r bylchau hyn os credir bod risg i lwyddiant unrhyw un o'r blaenoriaethau strategol os nad eir i'r afael â'r bylchau penodol hyn.

Un maes yn y cynllun gweithredu presennol y gellid edrych arno mewn adolygiad o'r fath, yw'r maes blaenoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc. Fel y nodwyd yn y Strategaeth ac yn y strategaeth genedlaethol hefyd, mae'r cyfnod ôl-16 yn hanfodol o safbwynt dilyniant ieithyddol. Dyma'r cyfnod i lawer o bobl ifanc rhwng addysg statudol a'r gweithlu, ac mae'n amser pan y gall nifer o ffactorau effeithio ar benderfyniadau ac arferion ieithyddol unigolion am weddill eu bywydau. Mae hefyd yn amlwg mai dyma'r cyfnod pan fydd nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn colli eu sgiliau iaith.

Mae'r Cyngor wedi nodi bod hwn yn faes blaenoriaeth, gyda'r targed i:

*Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiâu'r ysgol.*

Nodwyd tri phrif darged o dan y flaenoriaeth hon. Yn dilyn trafodaeth yn y Fforwm, mae'r cyntaf wedi wynebu newid ac efallai y caiff ei addasu. Mae'r ail yn cynnwys gweithgareddau'n seiliedig ar Eisteddfod Genedlaethol 2018 yng Nghaerdydd ac mae'r amserlen yn gorffen ym mis Awst 2018. Mae'r trydydd targed (Diwrnod Miwsig Cymru) eisoes wedi'i gyflawni (ond mae'n debygol y caiff ei ailadrodd yn flynyddol). Mae hyn yn amlygu posibiladau pellach a datblygiadau yn y dyfodol y byddai'n fuddiol eu cofnodi yn ffurfiol mewn cynllun gweithredu diwygiedig.

### I'w hystyried ymhellach

A7. Ar y cyd ag A1 ac A2, dylid ystyried adolygu'r cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad â'r prif bartneriaid (erbyn diwedd blwyddyn 2, Mawrth 2019) gyda'r bwriad o ddiweddarau neu addasu'r targedau. [Fel rhan o unrhyw adolygiad, dylid ystyried sut y bydd cyflawni unrhyw dargedau newydd neu ddiwygiedig, yn alinio â'r gofynion i adrodd ar gynnydd o ran i) cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a ii) cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, a beth yw'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ei hangen.]

A8. Wrth gynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu, dylid ystyried nodi unrhyw feysydd strategol allweddol nad ydynt wedi'u cwmpasu yn y cynllun gweithredu presennol, fel bod cofnod, neu 'rhestr ddymuniaadau', wedi'i nodi petai unrhyw gyfleoedd cyd-ariannu neu gyd-gynhyrchu yn codi. Hefyd, dylid cofnodi unrhyw risgiau sy'n deillio o ddiffyg adnoddau neu newid mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar lwyddiant cyflawni unrhyw flaenoriaethau strategol.

- Nid yw'r strategaeth yn ddogfen hir, mae'n fyr o ran steil sy'n ei gwneud yn fwy apelgar i gynulleidfaoedd.
- Croesawu'n fawr y ffaith fod y Strategaeth yn rhoi pwys ar ymchwil wrth gynllunio i'r dyfodol.

*Meysydd i'w hystyried ymhellach:*

Er gwaethaf cyfyngiadau'r holiadur rhanddeiliaid, roedd yn gwahodd sylwadau cryno o safbwynt beirniadaeth ac awgrymiadau am feysydd o gyfle. Er nad oedd yn caniatáu dadansoddi manwl, roedd y sylwadau a gafwyd yn fodd o fwrw goleuni ar rai materion sy'n wynebu'r partneriaid. Byddai adolygu'r cynllun gweithredu yn cynnwys partneriaid, ac fe allai'r pwyntiau a godwyd fod yn rhestr wirio ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth bellach. Er enghraifft, mae rhai partneriaid allweddol o'r farn bod potensial i gyflawni llawer mwy gydag addysg a phobl ifanc, ynghyd ag ymestyn y cyswllt gyda'r sector gwirfoddol yng Nghaerdydd. Felly wrth ddiweddarau ac adolygu'r cynllun gweithredu am y blynyddoedd i ddod, gellid ystyried y pwyntiau hyn, a gellid gwahodd partneriaid i gynnig syniadau ac opsiynau ar gyfer blaenoriaethau strategaeth a chydweithredu partneriaethol.

Ymhlith yr heriau a'r meysydd i'w hystyried a nodwyd gan y rhanddeiliaid, mae:

- Gellid ystyried amserlen hirach i ganiatáu i'r strategaeth gymryd golwg mwy strategol, gyda chyfnod adolygu penodol er mwyn diweddarau'r ddogfen i adlewyrchu tueddiadau dinas ddeinamig.
- Gall fod canfyddiad negyddol tuag at yr iaith oddi mewn i'r Cyngor.
- Nid oes gan y Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bob un o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu.
- Teimlad efallai fod y Sir yn ildio peth o'u cyfrifoldeb a'u rhoi ar bartneriaid ac o ganlyniad gallai gormod o sylw fynd i'r strategaeth a gormod o bwyslais ar waith y Cyngor yn y Fforwm.
- Dylai pob partner gael ei gynrychioli ar y Fforwm, e.e. gan gynnwys cynrychiolwyr o'r adran addysg er mwyn symud pethau yn eu blaen yn hytrach na dibynnu ar y partneriaid iaith Gymraeg yn unig i gyflawni'r gwaith craidd.
- Gorddibyniaeth ar yr awdurdod lleol i wireddu'r holl newidiadau heb gydnabod y rôl bwysig y gall pob sefydliad ei chwarae drwy bartneriaeth.
- Sicrhau adnoddau digonol (ariannol a staff) ar draws pob agwedd o'r meysydd blaenoriaeth er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth.
- Cyfle i godi proffil a statws y Gymraeg ymhellach yng Nghaerdydd.
- Gyda thwf addysg Gymraeg, a sylwadau diweddar yr Arweinydd yn annog agwedd ragweithiol wrth hyrwyddo manteision addysg Gymraeg, mae cryn botensial i wella'r sefyllfa bresennol.
- Er mwyn cynorthwyo'r broses o gyfathrebu gweithrediad y strategaeth, gellid ychwanegu eitem sefydlog i agenda cyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg.

## 5. Casgliadau

O ystyried y Strategaeth yng ngoleuni arferion gorau cydnabyddedig a sylwadau gan rhanddeiliaid, canfu'r adolygiad hwn fod y Strategaeth wedi'i llunio ar seiliau cryf gwaith ymgynghori a chyfathrebu.

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodwyd yn cyfateb i'r weledigaeth genedlaethol, ac maent yn seiliedig ar ymgynghori'n agos â phartneriaid. Mae'r targedau sy'n deillio ohonynt yn amlygu ystyriaeth o'r ddarpariaeth gyfredol a'r cyfyngiadau ariannol sy'n bodoli, ac yn ôl rhanddeiliaid allweddol, maent yn rhai realistig a chyraeddadwy.

Mae'r strategaeth yn cael ei gyrru gan weledigaeth bwrpasol a gefnogir gan ddiwyddiaeth a phersonél allweddol rhagweithiol, ynghyd â phroses atebolrwydd gadarn sy'n cynnwys elfen o graffu allanol gan bartneriaid allweddol a pherthynas gref drwy Fforwm Caerdydd Ddwieithog.

Caiff hyn ei adleisio mewn sylwadau gan rhanddeiliaid pan ofynnwyd eu barn am gyfnderau'r Strategaeth. Mae'r prif sylwadau yn cynnwys:

- Mae'r strategaeth yn strategaeth amlasiantaeth. Mae wedi sicrhau bod pob prif bartner yn rhan o'r weledigaeth, ac mae wedi dod â phartneriaid ynghyd i gydweithredu heb ddyblygu gwaith.
- Mae'r strategaeth yn cynnig gweledigaeth glir i'r Gymraeg yng Nghaerdydd ac mae'n amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor a'i gyfeiriad.
- Mae'r strategaeth yn defnyddio arbenigedd a chapasiti nifer o sefydliadau, ac mae hefyd yn gwneud y gorau o safle Caerdydd fel prifddinas.
- Cefnogaeth gan yr arweinyddiaeth bresennol a'r arweinyddiaeth flaenorol.
- Mae'n strategaeth gydnabyddedig oddi mewn i strwythur y Cyngor ac mae wedi'i hategu gan ddeddfwriaeth.
- Mae'r strategaeth yn nodi meysydd blaenoriaeth ac mae cynllun gweithredu i'r perwyl er mwyn helpu i wireddu'r blaenoriaethau.

## 6. Argymhellion

Dylid dathlu cryfderau Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog a dylid rhannu arferion da. Mae nifer o gyfleoedd i ystyried cryfhau gweithrediad y strategaeth ymhellach, ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ceisio amlygu'r cyfleoedd hynny yng ngoleuni'r canfyddiadau a'r adborth gan randdeiliaid.

A1. Dylid ystyried adolygiad o'r hyn a gaiff ei fesur, (a phryd, sut a chan bwy) er mwyn atgyfnerthu cyd-ddealltwriaeth, proses gadarn o ran cadw cofnodion a thystiolaeth o gynnydd tuag at y blaenoriaethau strategol a'r targed cyffredinol.

A2. Dylid ystyried ymhellach yr hyn a olygir wrth Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog mewn termau meintiol yng nghyd-destun y blaenoriaethau strategol. Dylid hefyd ystyried sicrhau cyswllt rhwng dangosyddion allweddol mesuradwy a cherrig milltir llwyddiant â'r cynllun gweithredu fel bod pob partner yn deall yr hyn sydd i'w gyflawni a'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu.

A3. Dylid sicrhau cefnogaeth a chyswllt parhaus i egluro'r weledigaeth mewn cyd-destunau sy'n berthnasol i adrannau gwahanol y Cyngor, ac ymhlith partneriaid yn gyffredinol yn ystod oes y strategaeth. Bydd hyn yn gymorth i gryfhau'r gyd-ddealltwriaeth o bwrsas ac o wireddu'r strategaeth yn ystod ei hoes.

A4. Fel yr awgrymwyd yng nghyfarfod y Fforwm, dylid ystyried y posibilrwydd o ehangu cyfarfod o'r Fforwm unwaith y flwyddyn i bartneriaid ehangach er mwyn caniatáu i Gaerdydd Ddwyeithog sicrhau mewnbyn ymarferol gan bartneriaid sy'n cynrychioli amryw fuddiannau, ac i atgyfnerthu perchnogaeth ddinas gyfan ar y weledigaeth.

A5. Dylid ystyried datblygu a chynnal cynllun rheoli rhanddeiliaid er mwyn cynnal a meithrin y berthynas gadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol yn ystod oes y Strategaeth.

A6. Dylid ystyried datblygu a chynnal rhaglen gyfathrebu i gefnogi gweithrediad y Strategaeth.

A7. Ar y cyd ag A1 ac A2m dylid ystyried adolygu'r cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad â'r prif bartneriaid (erbyn diwedd blwyddyn 2, Mawrth 2019) gyda'r bwriad o ddiweddarau neu addasu'r targedau. *[Fel rhan o unrhyw adolygiad, dylid ystyried sut y bydd cyflawni unrhyw dargedau newydd neu ddiwygiedig, yn alinio â'r gofynion i adrodd ar gynnydd o ran i) cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a ii) cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg, a beth yw'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ei hangen.]*

A8. Wrth gynnal adolygiad o'r cynllun gweithredu, dylid ystyried nodi unrhyw feysydd strategol allweddol nad ydynt wedi'u cwmpasu yn y cynllun gweithredu presennol, fel bod cofnod, neu 'rhestr ddymuniadau', wedi'i nodi petai unrhyw gyfleoedd cyd-ariannu neu gyd-gynhyrchu yn codi. Hefyd, dylid cofnodi unrhyw risgiau sy'n deillio o ddiffyg adnoddau neu newid mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar lwyddiant cyflawni unrhyw flaenoriaethau strategol.

# ATODIAD 3:

## Cwynion Cyhoeddus 2017-18

Derbyn	Manylion Cwynion	Gwasanaeth
Chwefror 2018	Cwyn yn ymwneud â gweithrediad porthol y Dreth Gyngor ar wefan y Cyngor	Y Dreth Gyngor
Chwefror 2018	Cwyn yn ymwneud â chelf stryd Saesneg yn unig y tu allan i Lyfrgell Cathays ( <i>Gwaith Celf heb ei gomisiynu na'i awdurdodi gan y Cyngor</i> )	Dd/B
Ionawr 2018	Cwyn yn ymwneud â gwefan Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro Tudalennau a ffurflen gofrestru ddim yn gwbl ddwyieithog.	Addysg
Rhagfyr 2017	Cwyn yn ymwneud ag arwydd ffordd dros dro ar Oxford Street	Priffyrdd – Gweithrediadau'r Ddinas
Tachwedd 2017	Cwyn yn ymwneud â llythyr rheoli plâu Saesneg yn unig a yrrwyd at breswlydd.	Rheoli Plâu
